

Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin

ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNLLUNIO BLYNYDDOL 2017

(Cyfnod adrodd Ebrill 2016 – Mawrth 2017)



RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno trydydd Adroddiad Perfformiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, gwasanaeth sy'n chwarae rhan allweddol yn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, a fydd yn cwmpasu pob agwedd ar fywydau pobl. Rwy'n croesawu'r Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynyddol (APB) yn fawr gan ei fod yn crynhoi'r gwaith di-baid sy'n mynd ymlaen i wella perfformiad ac y bydd yn sail i ddadansoddiad o flwyddyn i flwyddyn.

Mae cynllunio da yn ganolog i'n gwaith fel Cyngor, gan sicrhau lleoedd da a diogel i'n trigolion fyw, gweithio a mwynhau eu hamser hamdden ynddynt. Gall y gwasanaeth cynllunio fod o gymorth i gyflawni'r nodau hyn ynghyd â sicrhau twf yn yr economi a diogelu ein cynefinoedd naturiol. Bydd cyflwyno Deddf Cynllunio (Cymru) ym mis Gorffennaf 2015 yn cyflwyno nifer o heriau newydd ac mae goblygiadau'r Ddeddf honno yn dechrau dod drwodd yn ffurf is-ddeddfwriaeth ac arweiniad (e.e. y broses ffurfiol newydd o Ymgynghori cyn gwneud cais). Bu hon yn flwyddyn bwysig arall ym maes Cynllunio yng Nghymru, blwyddyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a bydd y Cyngor hwn yn parhau i groesawu'r symudiad tuag at gynllunio cadarnhaol a ragnodir yn y Ddeddf Gynllunio.



Y Cynghorydd Mair Stephens
Dirprwy Arweinydd

Y CYD-DESTUN

Rhagarweiniad

Diben yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APB) hwn yw nodi'r cyd-destun cynllunio dros y cyfnod o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017 ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys y rhannau hynny o'r Sir sy'n dod o dan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan fod gan yr awdurdod hwnnw ei swyddogaeth Rheoli Datblygu a'i Gynllun Datblygu Lleol ei hun, ac y bydd yntau hefyd wedi paratoi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ei hun am yr un cyfnod.

Y Sir

Mae Sir Gaerfyrddin yn Sir amrywiol gydag economi a thirwedd amaethyddol cefn gwlad yn bodoli ochr yn ochr ag ardal drefol a diwydiannol y rhan dde-ddwyreiniol. Fodd bynnag, fel sir wledig yn bennaf, mae dwysedd y boblogaeth yn isel, sef 75.7 o bobl i bob cilometr sgwâr, o'i gymharu â 140 o bobl i bob cilometr sgwâr yng Nghymru gyfan. Mae'r boblogaeth denau hon yn amlycach yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag ydyw yn ne a dwyrain y Sir lle mae 65% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw ar 35% o'r tir.

Mae prif ganolfannau trefol y Sir yn cynnwys Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin, gyda'r rhai cyntaf yn cynrychioli canolfannau diwydiannol o bwys hanesyddol yn yr ardal dde-ddwyreiniol. Mae tref farchnad hanesyddol Caerfyrddin wedi'i lleoli wrth y porth i orllewin Cymru, ac oherwydd ei lleoliad daearyddol, canolog, mae'n diwallu anghenion cefn gwlad y sir a'r tu hwnt. Mae aneddiadau mawr eraill y Sir yn amrywio o ran eu maint ac mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniadau nodedig at anghenion a gofynion eu cymuned a'r cyffiniau. Caiff y rhain eu hategu gan nifer o bentrefi ac aneddiadau gwledig sy'n hunangynhaliol o ran cyfleusterau a gwasanaethau; fodd bynnag, mae llawer o aneddiadau llai eraill yn brin o wasanaethau a chyfleusterau. Mae anghenion preswylwyr yn yr ardaloedd olaf hyn yn cael eu diwallu gan aneddiadau cyfagos fel arfer.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fabwysiadwyd yn adeiladu ar nodweddion gofodol ac amrywiaeth y Sir a'i chymunedau ac yn ceisio atgyfnerthu patrwm gofodol presennol yr aneddiadau ynghyd â fframweithiau cynlluniau datblygu blaenorol, gan barhau i adlewyrchu a hybu cynaliadwyedd yr un pryd. Mae'n ceisio gweithredu fframwaith o ddefnydd tir sy'n adlewyrchu a hyrwyddo hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, gan leihau'r angen i deithio, a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n ddull sy'n cael ei arwain gan y cynllun ac mae wedi ei seilio'n gadarn ar y cyd-destun gofodol presennol gyda'r nod o sicrhau aneddiadau hunangynhaliol, hyfyw a chymunedau gwledig cynaliadwy. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl atgyfnerthu cyfleusterau presennol ac mae'n darparu ar gyfer cefnogi, cadw a pharhau i ddarparu cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth dichonadwy mewn lleoliadau hygyrch a phriodol. Mae hefyd yn golygu bod modd datblygu rhagor o economiau lleol cynaliadwy ac mae'n hwyluso cyfleoedd adfywio.

Cadarnheir pwysigrwydd strategol y Sir gan y ffaith ei bod wedi ei lleoli o fewn tair ardal a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru (CGC):

- Sir Benfro – Yr Hafan;
- Bae Abertawe – Y Glannau a'r Cymoedd Gorllewinol; a
- Chanolbarth Cymru.

Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe'n cynnwys ardaloedd Cynghorau Sir Penfro, Sir Gaerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'n dod â busnesau, llywodraeth leol ac ystod o bartneriaid eraill at ei gilydd, gan weithio tuag at greu ffyniant economaidd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein Dinas-ranbarth. Mae Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013 - 2030 yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer y rhanbarth, gyda'r nod o gefnogi datblygiad yr ardal dros y degawdau i ddod. Mae'r CDLI, wrth gydnabod rôl Sir Gaerfyrddin, yn darparu drwy ei bolisiau a'i gynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth (yn cynnwys adfywio), gyda'r economi'n elfen bwysig yn strategaeth y Cynllun. Bydd rôl y Ddinas-ranbarth, wrth iddi ddatblygu, a Bargaen y Ddinas a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn yn ystyriaeth wrth sicrhau bod y drefn a fabwysiedir ym mhob Sir yn gydnaws â'i gilydd o safbwynt cyd-destun strategol y Rhanbarth.

Cefndir Cynllunio

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin ei fabwysiadu ar 10 Rhagfyr 2014, ac mae'n nodi'r weledigaeth ofodol ar gyfer dyfodol Sir Gaerfyrddin (ar wahân i'r ardal honno o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd â'i CDLI ei hun), ynghyd â fframwaith ar gyfer dosbarthu a chyflawni twf a datblygiad. Mae'n nodi cynigion a pholisiau cynllunio ar gyfer defnydd tir i'r dyfodol ar draws Sir Gaerfyrddin, a bydd yn sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ac ar gyfer llywio cyfleoedd buddsoddi a thwf yn y dyfodol.


Mae polisiau'r CDLI yn cynnwys dyraniadau tir i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau (h.y. tai, cyflogaeth, manwerthu, addysg, mannau agored, yr amgylchedd adeiledig a naturiol ac ati) yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer asesu cynigion unigol. Mae'r Cynllun yn cael effaith uniongyrchol ar fywyd pob un sy'n byw yn y Sir ac mae iddo hefyd oblygiadau mawr o ran rhaglenni buddsoddi, cynlluniau a strategaethau eraill, cymunedau a pherchenogion tir. Bydd y CDLI yn llywio datblygiadau hyd at 2021 a chaiff ei fonitro'n unol â'r fframwaith monitro a eglurwyd yn y Cynllun a'i adolygu fel bo angen.

Mae'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar y CDLI wedi cael ei baratoi i weld sut mae'r Cynllun yn gweithio'n ymarferol. Cafodd yr adroddiad hwn a'i argymhellion eu hystyried gan y Cyngor Sir ar yr 20^{fed} o Fedi 2017 a bydd wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017, a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin. Bydd yr argymhellion fydd wedi eu cynnwys yn yr AMB yn amlinellu'r angen i adolygu'r Cynllun a'i gynnwys. Caiff y broses hon ei hailadrodd o hyn ymlaen a gwneir cyflwyniad i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref bob blwyddyn.

Cynllunio a'r strategaeth gymunedol a gweithgarwch strategol a gweithredol ehangach y Cyngor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) eisiau i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn gymorth i greu y Gymru y mae arnom ni i gyd eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn gosod y saith nod llesiant a ddangosir isod:

Nodau Llesiant



Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a'r 5 Ffordd o Weithio

Mae'r egwyddor yn cynnwys **pum ffordd allweddol o weithio** y mae disgwyl i gyrff cyhoeddus eu cymryd i ystyriaeth wrth gymhwyso datblygiad cynaliadwy. Y rhain yw :-

- A. Edrych i'r **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain;

- B. Mabwysiadu dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau;
- C. **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy;
- D. Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddarganfod datrysiadau cyffredin cynaliadwy;
- E. Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd Cynlluniau Llesiant yn darparu rhan o'r sylfaen o dystiolaeth a'r cyd-destun ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol ac unrhyw Gynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y CDLI yn parhau i fod yn offeryn allweddol ar gyfer cyflawni Cynlluniau Llesiant ac mae manteision clir, o ran effeithlonrwydd, ymgysylltu a chanlyniadau, o gyflawni'r ddwy broses gyda'i gilydd. Bydd y symud tuag at Gynlluniau Llesiant a'r trosglwyddo o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ystyried o fewn Adroddiadau Monitro Blyneddol dilynol er mwyn sicrhau bod y ddau Gynllun craidd hyn yn parhau i gyd-redeg.

Mae'r CDLI hefyd yn gweithio llaw yn llaw â chynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill i gyflawni canlyniadau cynaliadwy. Mae gan nifer o'r strategaethau hyn agenda cynaliadwyedd gyffredin. Ymhlith y strategaethau hyn bydd:

- Strategaeth Dai Sir Gaerfyrddin: Pobl, Cartrefi a Chymunedau;
- Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin: 2015-2030;
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin a'r Adolygiad;
- Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd i'r De Orllewin: 2015 - 2020;
- Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru – Datganiad Technegol Rhanbarthol;
- 'Ar Agor drwy'r Flwyddyn' – Strategaeth Dwristiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru;
- Cynllun Datblygu Gwledig Sir Gaerfyrddin;
- Strategaeth Gymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Cynllun Corfforaethol y Cyngor Sir (2014-2017).

Yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid yn y Sir, mae cyswllt ag awdurdodau cyfagos wedi bod yn nodwedd allweddol ar draws rhanbarth de-orllewin Cymru ac mae hynny'n parhau, gan chwarae rôl bwysig ym mhroses paratoi'r CDLI a hefyd wrth fwrw ymlaen â'r goblygiadau newydd niferus sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor wedi cael cyswllt rheolaidd ag awdurdodau cyfagos, yn unigol ac ar y cyd ar lefel ranbarthol (drwy Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru) sy'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Dinas a Sir Abertawe, Sir Benfro, Ceredigion, Powys a Chastell-nedd Port Talbot), er mwyn sicrhau cysondeb rhwng Cynlluniau Datblygu Lleol y gwahanol awdurdodau. Mae rhai ffactorau'n golygu nad oes modd cael cydymffurfiaeth lwyr ond mae trafodaethau adeiladol a rhannu gwybodaeth a phrofiad wedi lleihau'r perygl y byddai polisïau'n gwrthdaro ac wedi sicrhau lefel briodol o integreiddio.

Asesu addasrwydd mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC); mae Deddf Gynllunio 2008 a Rheoliadau ASC 2010 yn y blyneddoddi diwethaf wedi cyflwyno'r cyfle i roi trefn newydd ar waith i ariannu seilwaith a fydd yn cefnogi datblygiadau newydd.

Nid oes gofyniad gorfodol ar Awdurdodau Lleol i gyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth newydd mewn gwirionedd yn lleihau cwmbras cytundebau

cyfreithiol Adran 106, gan eu cyfyngu i dai fforddiadwy a mesurau lliniaru 'ar safle' yn unig. Mae Sir Gaerfyrddin felly wedi bod yn ystyried gwerth cymharol gweithredu trefn ASC, yn enwedig yng nghyd-destun y posibilrwydd o golli allan ar gasglu cyfraniadau gan ddatblygwyr i ariannu seilwaith hanfodol, ond hefyd yn erbyn cefndir hyfywedd datblygu amrywiol ar draws y Sir.

Gyda golwg ar hyn comisiynwyd Gwasanaeth y Prisiwr Dosbarth i gynnal astudiaeth hyfywedd fel sail i'r trafodaethau ynglŷn â mabwysiadu Trefn Codi Tâl ASC. Mae'r astudiaeth yn darparu sylfaen dystiolaeth o werthoedd tir, gwerthiannau a rhenti, costau adeiladu a hyfywedd datblygu ar gyfer amryw o ddefnyddiau tir ar draws Sir Gaerfyrddin (heb gynnwys yr ardal sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

Er bod hyn a thystiolaeth arall wedi bod yn fuddiol o ran gosod y cyd-destun ar gyfer ASC yn Sir Gaerfyrddin, mae newidiadau diweddar yn y cyd-destun cenedlaethol wedi newid agwedd y Cyngor tuag at ASC yn ystod blwyddyn yr APB hwn. Mewn ymateb i'r adolygiad a gomisiynwyd gan Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol – Agwedd Newydd at Gyfraniadau Datblygwyr - i Weinidogion, ynghyd â datganoli ASC i Lywodraeth Cymru dan Ddeddf Cymru 2017, mae'r Cyngor, am y tro, wedi gohirio datblygu ASC (Penderfyniad y Cyngor ar yr 20^{fed} o Fedi 2017).

Dylanwadau mawr presennol a blaenorol ar ddefnydd tir

Nodweddir y sir gan y rhaniad rhwng cefn gwlad a'r ardaloedd trefol sy'n nodweddu'r amrywioldeb mewn aneddiadau, eu rôl hanesyddol a'u swyddogaeth yn y dyfodol. Enghraifft o hyn yw'r ardaloedd yn y de-ddwyrain sy'n drefol gan mwyaf gyda'u hanghenion ôl-ddiwydiannol yn nhermau adfywio. Yn aml, mae'r heriau y mae'r fath aneddiadau yn eu hwynebu yn dra gwahanol eu maint i'r rhai mewn ardaloedd gwledig, sy'n wynebu heriau gwahanol megis diboblogi a newidiadau yn y diwydiant amaethyddol. Mae hyn yn crisialu amrywiaeth cymunedau ac aneddiadau Sir Gaerfyrddin o ran eu cymeriad, eu maint a'u rôl a lle nad yw maint anheddiad yn adlewyrchu ei rôl bob tro. Oherwydd hyn, ni ellid dosbarthu'r cyfleoedd twf yn ôl safle yn hierarchaeth y CDLI drwy ddibynnu ar ddehongliad syml o ddosbarthu'r lle y darperir twf, er enghraifft, ar draws holl aneddiadau haen 3 (fel y'u diffinnir yn y CDLI) yn gyfartal. Yn wir, mae hyn yr un mor berthnasol yn yr Ardaloedd Twf (fel y'u diffinnir yn y CDLI) lle mae gan bob un ardal ei materion a'i hystyriaethau gwahanol, amlwg, sy'n sail i'r potensial ar gyfer twf ond bod hynny yng nghyd-destun eu pwysigrwydd mewn termau strategol a'r swyddogaeth y maent yn ei chyflawni.

Mae nifer o ystyriaethau sy'n dylanwadu ar addasrwydd tir ar gyfer ei ddatblygu ar draws y Sir, yn arbennig llifogydd (mae llawer o'r trefi mwyaf wedi eu lleoli yn agos at y môr a/neu afonydd) a chadwraeth natur a dynodiadau (Llanelli/Porth Tywyn a Cross Hands yn bennaf). Ymhellach, mae nifer o ystyriaethau cymdeithasol, gan gynnwys ardaloedd o ddiddordeb ieithyddol o safbwynt y Gymraeg – yn arbennig yng Nghymoedd Gwendraeth ac Aman – y mae angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried addasrwydd datblygiadau sy'n cael eu cynnig a'u heffeithiau posibl.

Mae arwyddocâd mynd i'r afael â heriau lleoliad a chynaliadwyedd, sy'n wynebu rhai cymunedau gwledig, wedi cael ei gydnabod drwy'r CDLI a'r hierarchaeth aneddiadau addas. Mae'r gwahanol bolisiâu eithrio yn y CDLI yn ceisio sicrhau bod modd cyflawni twf organig a chynaliadwy mewn ardaloedd gwledig o'r fath, lle bo'n briodol.

Natur hanesyddol/dirweddol yr ardal, gan gynnwys Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ardaloedd cadwraeth ac ati.

Mae cyfoeth amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn ystyriaeth ofodol bwysig wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y Sir, yn arbennig o ran y potensial ar gyfer twf a lleoli datblygiadau mewn lleoedd addas. Mae'r sir yn cynnwys safleoedd â dynodiadau rhyngwladol, er mwyn diogelu a gwella'u gwerth o ran cadwraeth natur, yn ogystal â thirweddau trawiadol a threfi a phentrefi hanesyddol nodweddiadol o'r rhanbarth. Mae pwysigrwydd treftadaeth adeiledig y sir yn cael ei danlinellu gan y 27 ardal gadwraeth sydd wedi'u dynodi yn ei haneddiadau, 470 o Henebion Rhestredig (nodweddion o ddiddordeb diwylliannol a hanesyddol sy'n amrywio o rai Cynhanes i rai Ôl-ganoloesol/Modern) a'r nifer fawr o adeiladau rhestredig. Mae yna hefyd nifer o safleoedd dynodedig sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth natur a bioamrywiaeth, gan gynnwys 7 Ardal Gadwraeth Arbennig, 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 1 safle Ramsar (Cilfach Tywyn), 82 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 5 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, 5 Gwarchodfa Natur Leol a 7 tirwedd gofrestredig.

Newid yn y Boblogaeth a'r Dylanwad ar Faterion Cynllunio

Nododd Cyfrifiad 2011 mai 183,777 oedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin, gyda 78,829 o aelwydydd.

Rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, gwelodd poblogaeth Sir Gaerfyrddin gynydd o 11,070 a chynyddodd nifer yr aelwydydd o 5,781. Dros yr un cyfnod cafwyd cynnydd o 6,969 uned yn y stoc tai. Mae dosbarthiad y boblogaeth ac aelwydydd ar draws y Sir ar hyn o bryd yn adlewyrchu'n fras y ffurf drefol bresennol a'r cymunedau sefydledig.

Wrth baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol, datblygodd y Cyngor senario diwygiedig o ran newid yn y boblogaeth ac aelwydydd. Defnyddiai hwn dystiolaeth wedi'i diweddarau i ddod i'r casgliadau ynghylch ffrydiau mudo yn y dyfodol, ond sicrhodd gydbwysedd rhwng y mudo net uchel iawn a welwyd yng nghanol y degawd a'r sefyllfa yn 2009 pan gofnodwyd y mudo net isaf i Sir Gaerfyrddin er 1993, ynghyd â'r holl ffynonellau data oedd ar gael ac oedd wedi'u cyhoeddi ers amcanestyniadau Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2008. Rhoddwyd ystyriaeth i oblygiadau amcanestyniadau aelwydydd Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2011 a'r gostyngiad rhagdybiedig a amlinellwyd yn yr amcanestyniadau aelwydydd yn erbyn cyd-destun strategol y CDLI a'i amcanion. O ganlyniad, mae'r Cynllun wedi'i seilio ar ddyheadau twf gyda'r gofyniad am 15,197 o anheddau wedi ei nodi dros gyfnod y cynllun.

Mae cyhoeddi Amcanestyniadau Aelwydydd a Phoblogaeth Is-Genedlaethol seiliedig ar 2014 a'u goblygiadau yn cael eu hystyried fel rhan o AMB 2017 ac mae'r sylw dyledus i gael ei dalu i'r amcanestyniadau hyn a'r angen i ddeall y ffactorau fydd yn dylanwadu ar ofynion tai yn y dyfodol a'r newid demograffig, a'i effaith ar unrhyw adolygiad o'r CDLI.

Y GWASANAETH CYNLLUNIO

Y Gwasanaeth a'i leoliad o fewn y Cyngor

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys chwe Adran sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Mae pob Adran yn gyfrifol am nifer o Wasanaethau, ac mae gan bob maes gwasanaeth Bennaeth Gwasanaeth.

Gellir gweld strwythur Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin yn Ffigur A.


Symudodd y Gwasanaeth Cynllunio i Adran yr Amgylchedd ar 1 Ebrill 2015, a phenodwyd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd newydd a Phennaeth Cynllunio newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2015/2016. Yn sgil ei adleoli mae'r Gwasanaeth Cynllunio bellach yn yr un adran â Phriffyrdd a Thrafnidiaeth, Eiddo a Gwastraff a Gwasanaethau Amgylcheddol. Mae'r Pennaeth Cynllunio yn adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd

Mae Ffigur B isod yn cyflwyno strwythur y Gwasanaeth Cynllunio. Fel y gwelir, mae'r Gwasanaeth wedi'i rannu'n chwe swyddogaeth ar wahân (unedau busnes), gyda Rheolwr Busnes ar bob un ohonynt, ac maent i gyd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cynllunio.

Ffigur A: Strwythur Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin, fel ar 31 Mawrth 2017

Y Prif Weithredwr					
Y Prif Weithredwr	Cymunedau	Yr Amgylchedd	Gwasanaethau Corfforaethol	Addysg a Phlant	Adfywio a Pholisi
Rheoli Pobl	Diogelu'r Cyhoedd a Thai	Gwasanaethau Cynllunio	Refeniw a Chydymffurfio	Gwasanaethau Plant	Datblygu Economaidd
Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	Hamdden	Eiddo	Gwasanaethau Ariannol	Gwasanaethau Addysg	Diogelwch Cymunedol
TGCh	Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff		Cwricwlwm a Lles	Eiddo a Phrosiectau Mawr
	Comisiynu	Trafnidiaeth a Phrifyrdd		Datblygu Strategol	Cymunedau a Diogelu
	Gwasanaethau Integredig	Cymorth Busnes, Datblygu a Pherfformiad			Marchnata a'r Cyfryngau
	Cydweithredu Rhanbarthol				Polisi Corfforaethol
	Cymorth Busnes a Gwella Gwasanaethau				Cymorth Gweithredol
					Cofrestryddion
					Gwasanaethau Etholiadol
					Rheoli Perfformiad

Ffigur B: Strwythur y Gwasanaeth Cynllunio, fel ar 31^{ain} o Fawrth 2017



Yn ystod 2016/17, dilynodd y gwasanaeth Cynllunio'r strwythur uchod fel y mae wedi gwneud ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag tua rhan olaf y flwyddyn, cychwynnwyd ar broses o ailstrwythuro, a chaiff y canlyniadau eu hadlewyrchu yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18, sef yr adeg y bydd y newidiadau yn cael eu gweithredu.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi ei leoli yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo, ac yn defnyddio cyfanswm o chwe lleoliad ar wahân fel a ganlyn:

Pennaeth Cynllunio

Mae'r Pennaeth Cynllunio, ynghyd â 2 aelod o staff cefnogi, wedi'i leoli yn Heol Spilman, Caerfyrddin.

Cadwraeth Cefn Gwlad

Mae'r Tîm Cadwraeth Cefn Gwlad wedi'i leoli'n bennaf yng Nghaerfyrddin (Heol Spilman) a Llandeilo (Swyddfeydd Dinesig). Mae gan y Tîm gynrychiolaeth hefyd ger Cross Hands o ran rheoli prosiect Caeau Mynydd Mawr. Hefyd, mae un swyddog wedi'i leoli yn Swyddfa Llanelli ar hyn o bryd am ran o'r wythnos o leiaf.

Mwynau a Gwastraff

Mae canolfan y Tîm Mwynau a Gwastraff yn Llandeilo, yn y Swyddfeydd Dinesig - er eu bod yn gweithio i raddau helaeth ar safleoedd, oherwydd natur eu dyletswyddau, sy'n cynnwys ymgymryd â'r swyddogaeth Mwynau a Gwastraff i nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol De Cymru.

Rheoli Datblygu

Ar hyn o bryd mae tri thîm ar wahân yn rhan o Reoli Datblygu, sy'n cynnwys Gorfodaeth Gynllunio, Ecoleg a Chadwraeth Adeiledig. Mae'r timau hyn wedi'u lleoli yn Nhŷ Elwyn, Llanelli yn ogystal â Heol Spilman, Caerfyrddin a Swyddfeydd Dinesig Llandeilo. Mae hyn yn golygu bod y Sir wedi'i rhannu'n dimau'r Dwyrain, y De a'r Gorllewin ar hyn o bryd. Mae'r canolbwynt gweinyddol ar gyfer cofrestru pob cais cynllunio a rheoli data wedi'i leoli yn y Swyddfeydd Dinesig yn Llandeilo. Er bod gan y tri thîm Swyddogion Rheoli Datblygu a Swyddogion Gorfodi, mae'r timau'n rhannu gwasanaethau un Swyddog Cadwraeth Adeiledig ac un Ecolegydd.

Rheoli Adeiladu

Mae gan Rheoli Adeiladu hefyd bresenoldeb mewn tri lle, sef Tŷ Elwyn, Llanelli, y Swyddfeydd Dinesig yn Llandeilo a Heol Spilman yng Nghaerfyrddin. Heol Spilman yw'r brif ganolfan ar gyfer archwilio cynlluniau. Mae swyddogion yn cydnabod yn gyffredinol y manteision o gydleoli'r Timau Rheoli Adeiladu a Rheoli Datblygu.

Canolfan Tywi

Mae Canolfan Tywi yn hyrwyddo'r Dreftadaeth Adeiledig, a'i gweledigaeth fu creu dyfodol lle mae tir, adeiladau a diwylliant gorllewin Cymru yn cael eu deall yn well, eu mwynhau a'u cynnal mewn ffordd sensitif. Mae'r tîm o 4 aelod o staff wedi'i leoli yn Swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Fferm Dinefwr, Llandeilo. Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith wedi'i gynnal i edrych ar swyddogaeth y Ganolfan yn y dyfodol a daw y newidiadau hynny yn gwbl weithredol yn ystod 2017/18.

Blaen-gynllunio

Blaen-gynllunio yw'r unig swyddogaeth sydd wedi'i lleoli'n gyfan gwbl yn Heol Spilman, Caerfyrddin.

Gweithgareddau ehangach y sefydliad sy'n effeithio ar y gwasanaeth:

Mae'r Gwasanaeth wedi nodi arbedion Cyllidebu ar Sail Blaenoriaeth o ryw £200,000 dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer y tair blynedd nesaf (2016-2019). Mae eisoes wedi gwneud arbedion dros y cyfnod 2013/15, gan gollu staff cyfwerth ag 8 aelod o staff amser llawn o ganlyniad i ddiswyddo gwirfoddol.

Cynhaliwyd adolygiad mewnol o'r Uned Rheoli Datblygu yn 2015, gyda phwyslais ar gyflwyno her o 'Feddlw mewn Systemau'. Mae hyn wedi arwain at ailgynllunio'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau/systemau, ac erbyn hyn mae'n cael ei gyflwyno mewn meysydd eraill yn y Gwasanaeth, sef Mwynau a Gwastraff. Mae'r broses hon o adolygu yn cynnwys y gallu i herio ac archwilio ymhellach yn gyson, er mwyn sicrhau bod y system a'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfredol a pherthnasol. Mae'r egwyddorion cyffredinol wrth wraidd hyn yn cynnwys yr angen am ymgysylltu cynnar ac yn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori ansawdd mewn cynigion mor gynnar â phosibl yn y broses. Nodir bod hyn yn cyd-fynd â rhai o egwyddorion sylfaenol agenda Cynllunio Cadarnhaol Llywodraeth Cymru. Mae'r maes gwasanaeth hwn hefyd yn datblygu'i set ei hun o fesurau monitro, gyda golwg ar gynnwys gwell tystiolaeth o ansawdd yn y broses a gallu deall profiad y cwsmer 'o'r dechrau i'r diwedd'. Yn ogystal â'r agweddau uchod yn ymwneud ag ansawdd, rhagwelir y bydd hyn yn sicrhau rhagor o arbedion ariannol. Mae rhai o'r arbedion hyd yma wedi'u cyflawni drwy newidiadau i ffordd o weithio sy'n defnyddio llai o bapur, sydd wedi lleihau costau argraffu a chopïo. Caiff yr effaith lawn ei gwerthuso wrth i'r systemau newydd gael eu cyflwyno'n ehangach.

Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae'r tîm Mwynau a Gwastraff wedi sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth gyda nifer o Awdurdodau Lleol (AauLI) eraill yng ngorllewin Cymru. Yr Awdurdodau Lleol yw:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
- Cyngor Sir Penfro;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Cyngor Sir Powys;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;

- Cyngor Bro Morgannwg; a
- Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae'r rhain yn amrywio o ran fformat, ond maent i gyd yn cynnwys holl anghenion, neu gyfuniad o anghenion, yr Awdurdodau Lleol hynny o ran monitro, ceisiadau cynllunio a gorfodi mewn perthynas â materion Mwynau a Gwastraff.

At hynny, mae swyddogaeth orfodi Rheoli Datblygu wedi bod yn destun adolygiad mewnol, ar ffurf Adolygiad Pwyllgor Craffu dan arweiniad Aelodau. Roedd hyn yn ganlyniad nifer fawr o argymhellion a wnaed ynghylch y ffordd y mae'r Cyngor Sir yn gweithredu ei swyddogaeth Gorfodi Rheolau Cynllunio, yn arbennig mewn meysydd lle mae gorgyffwrdd posibl â phwerau rheoleiddio o dan ddeddfwriaeth arall. Mae grŵp amlddisgyblaethol wedi cael ei sefydlu sy'n cyfarfod yn chwarterol ac yn cael ei gadeirio gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am yr holl faterion gorfodi

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio ar hyn o bryd yn gweithio gyda darparwr i ddatblygu system 'swyddfa gefn' newydd sy'n seiliedig ar y cwmwl. Dylai'r system newydd hon ddarparu mwy o hyblygrwydd a rhagor o gyfleoedd i'w gwneud yn bosibl datblygu mewn ffordd bwrpasol yn fewnol. Mae'r system hefyd yn cynnig cyfle mwy penodol i fesur perfformiad. Dylai'r system newydd hon fod yn ei lle erbyn 2017/2018

Hefyd, mae system rheoli data electronig y Cyngor Sir (EDMS) – a adwaenir fel Information@Work - yn cael ei hadolygu, ac mae mwy o gyfle yn cael ei ddarparu i rannu gwybodaeth ar draws adrannau. Bydd hyn yn darparu mwy o wybodaeth a chymorth i'r Tîm Datblygu wrth ddelio â chynigion datblygu mawr sy'n cael eu cyflwyno yn y Sir. Y bwriad, yn amodol ar fesurau diogelu, yw ymestyn hyn i asiantaethau allanol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda golwg ar ddarparu, er enghraifft, mwy o wybodaeth ar gyfer ystyried cynigion datblygu.

Cyflwynwyd ffioedd Rheoli Adeiladu newydd yn ystod Mai 2015, er mwyn ei gwneud yn bosibl codi taliadau mewn ffordd fwy teg a thryloyw yn seiliedig ar egwyddor adennill costau. Drwy gysylltu costau ag amcangyfrifon gwaith gwirioneddol, a chost darparu'r gwasanaethau, drwy staff proffesiynol a gweinyddol, bydd modd i'r rhestr ffioedd ddilyn modelau masnachol yn agosach ar gyfer amcangyfrif a chodi am wasanaethau. Dylai hyn wneud Rheolaeth Adeiladu Awdurdod Lleol yn fwy cystadleuol yn y farchnad a darparu cystadleuaeth fwy uniongyrchol gydag arolygwyr sydd wedi eu cymeradwyo.

Cyllideb weithredol:

Dangosir y gwir incwm o ffioedd Ceisiadau Cynllunio yn erbyn y ffigur yn y gyllideb yn Nhabl 1 isod. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cadw ei incwm o ffioedd er, fel y dengys y ffigurau isod, mae anghysondeb rhwng yr incwm wedi'i gyllidebu a'r gwir incwm. Mae hwn yn ffactor allweddol wrth bennu'r gyllideb weithredol flynyddol.

Tabl 1: Incwm wedi'i Gyllidebu a Gwir incwm o ran: Ffioedd Cynllunio

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Incwm wedi'i gyllidebu	-	-	-	£1,194,630	£1,164,630	£1,164,630
Incwm Gwirioneddol	£869,096	£965,491	£830,881	£876,801	£1,033,171	£722,215

Staffio, fel ar 31 Mawrth 2017:

Mae'r canlynol yn egluro'r sefyllfa staffio ar gyfer cyfnod yr APB. Yn ystod rhan olaf 2016/17, roedd ad-drefnu yn mynd rhagddo ond yn 2017/18 y bydd yn cael ei weithredu ac ymdrinnir ag ef yn yr APB ar gyfer 2017/18.

Caiff yr Uned **Rheoli Datblygu** yn y Gwasanaeth Cynllunio ei rheoli gan Reolwr Rheoli Datblygu, sydd â chyfrifoldeb rheolwr llinell uniongyrchol am dri Uwch-swyddog Rheoli Datblygu. Ar hyn o bryd, mae'r uned yn gweithio o dair swyddfa, sef Caerfyrddin, Llanelli a Llandeilo, gyda'r Uwch-swyddogion yn arwain y timau yn yr ardaloedd hyn. Gyda'i gilydd, mae gan y timau 10 Swyddog Rheoli Datblygu, ynghyd â 2 Gynorthwydd Rheoli Datblygu (mae swydd un o'r Cynorthwywyr yn wag ar hyn o bryd ac mae'r llall yn gweithio yn y Tîm Mwynau a Gwastraff ar hyn o bryd). Mae swyddi'r Cynorthwywyr yn benodiadau cyfnod penodol lle mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd hyfforddiant (ôl-radd fel arfer). Mae'r swyddi hyn yn rhai sydd wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd, ac mae tri o'r Swyddogion Rheoli Datblygu wedi symud i fyny o swyddi Cynorthwywyr.

Mae yna Ecolegydd llawn amser sy'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio ac yn rhoi mewnbwn i bolisi cynllunio. Mae wedi'i leoli yn Heol Spilman, Caerfyrddin.

Mae'r Rheolwr Rheoli Datblygu hefyd yn gyfrifol am dîm Gorfodi o bedwar swyddog, ac mae ganddo hefyd un Swyddog Cadwraeth (roedd yna 3 gynt) ac un Swyddog Gorfodi Cadwraeth.

Rhoddir cymorth technegol i'r swyddogaeth Rheoli Datblygu gan dîm a arweinir gan y Swyddog Rheoli Gwybodaeth. Mae'r cymorth hwn ar ffurf cofrestru ceisiadau, diweddarau cronfeydd data/GIS, sganio gwybodaeth/cynlluniau, yn ogystal â chynnal Chwiliadau Tir. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am yr holl waith datblygu technoleg gwybodaeth sy'n gysylltiedig â Chynllunio a chynnal a chadw'r wefan a'i diweddarau. O dan y Swyddog Rheoli Gwybodaeth mae 5 Swyddog Cofrestru/Chwiliadau, yn ogystal â Chynorthwywyr Cymorth Data cyfwerth â 2.6 amser llawn.

Caiff y tîm Rheoli Datblygu gymorth gweinyddol gan 3 Chynorthwydd Gweinyddol ac mae yna Gynorthwydd Gweinyddol Apeliadau rhan-amser hefyd.

Mae'r Tîm **Blaen-gynllunio'n** cynnwys Rheolwr Blaen-gynllunio ynghyd â phedwar Swyddog Blaen-gynllunio sy'n ymdrin â phob agwedd ar Bolisi Cynllunio, gan gynnwys polisi'r cynllun datblygu, Canllawiau Cynllunio Atodol, mentrau darparu safleoedd a monitro, gan gynnwys yr Adroddiad Monitro Blyneddol, Gwastraff Rhanbarthol a'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

Hefyd mae yna Swyddog Cyfraniadau (swydd sy'n cael ei gwneud gan Swyddog Blaen-gynllunio ar secondiad) sydd â chylch gwaith penodol yn ymwneud â materion Adran 106 ac ystyried Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer y Sir. Caiff y tîm ei gynorthwyo gan Swyddog Dylunio Graffeg arbenigol a dau Gynorthwydd Technegol. Mae un swydd Swyddog Blaen-gynllunio yn y tîm yn wag, (sef y swyddog sydd ar secondiad fel Swyddog Cyfraniadau ar hyn o bryd) ac mae swydd wag arall yn y strwythur hefyd.

Cydnabyddir bod datblygu staff ac ehangu'r cylch gwaith, ar yr un pryd â blaenoriaethu ei swyddogaethau statudol, yn allweddol i lwyddiant y portffolio yn y dyfodol. Yn hyn o beth, sefydlodd y tîm Blaen-gynllunio rôl ymgynghoriaeth gynllunio fewnol yn ystod 2014/15, i gynorthwyo gyda'r gwaith o sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor, ac i sicrhau bod eglurder o ran cyfleoedd datblygu yn y dyfodol. Mae buddion refeniw o ganlyniad i hyn ac mae'n lleihau'r baich ariannol i'r Cyngor o ddefnyddio ymgynghorwyr allanol yn ddiangen. Mae hefyd yn ddull gweithredu sy'n allweddol i gadw staff drwy incwm ariannol a llwyth gwaith newydd a diddorol.

Mae saith aelod o staff yn gweithio yn yr Uned **Mwynau a Gwastraff** ar hyn o bryd; nid oes swyddi gwag yn yr Uned. Mae'n darparu gwasanaethau cynllunio mwynau a gwastraff i Sir Gaerfyrddin ac i saith Awdurdod Cynllunio Lleol arall, sydd wedi'u rhestru'n barod, o dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth.

Mae colli personél medrus o'r tîm Mwynau/Gwastraff wedi cael ei nodi fel risg arwyddocaol a fyddai'n arwain at anallu i ddarparu gwasanaeth mwynau a gwastraff ar y lefel bresennol. At hynny, rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau Mwynau a Gwastraff yn cynyddu oherwydd bod Awdurdodau eraill wedi colli personél allweddol, sy'n ychwanegu at y pwysau ar adnoddau'r staff presennol.

Mae Cynorthwydd Rheoli Datblygu dros dro yn yr Uned Mwynau a Gwastraff. Mae deiliad y swydd wedi cael ei gofrestru ar gwrs Meistr mewn Cynllunio, er mwyn iddo ddatblygu sgiliau cynllunio. Mae pedwar aelod o'r uned hefyd wedi'u cofrestru ar gwrs dysgu o bell y Sefydliad Chwarela er mwyn datblygu eu sgiliau. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o benodiadau / trosglwyddiadau er mwyn mynd i'r afael yn llawn â chynllunio olyniaeth yn y tymor byr/canolog, gyda'r posibilrwydd i hyn gael ei ariannu o ffrydiau incwm ychwanegol. Mae'r Rheolwr Busnes felly yn edrych ar gynllunio olyniaeth ar hyn o bryd ac ar unrhyw newidiadau strwythurol a allai fod yn ofynnol i sicrhau bod y Tîm yn parhau'n gydnerth.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn gwneud defnydd helaeth o arbenigedd a mewnbwn y **Tîm Cadwraeth Cefn Gwlad** sydd wedi ei leoli o fewn y Gwasanaeth Cynllunio (9 swyddog i gyd, ond nid yw pob un yn amser llawn). Mae'r Swyddog Tirwedd yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser ar faterion cynllunio – yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud â thyrbinau gwynt. Mae Swyddogion eraill sy'n aelodau o'r tîm hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at y broses gynllunio.

Mae'r perygl o golli personél medrus o'r tîm **Rheoli Adeiladu** wedi cael ei nodi fel risg a fyddai'n arwain at anallu i ddarparu gwasanaeth ar y lefel bresennol. Dros yr ychydig flynyddoedd ddiwethaf yn fras mae'r Uned Fusnes wedi cael ei chyd-reoli ar sail dros dro gan y Prif Swyddogion. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried newid hyn i sicrhau bod gan yr Uned un pwynt cyswllt gyda chyfrifoldeb o ran materion rheoli. Mae Pennaeth y Gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda'r ddau Brif Swyddog ar gynllunio olyniaeth i weld a oes angen newid y strwythur presennol i'w wneud yn fwy cydnerth ond hefyd i greu cyfleoedd i staff iau symud i fyny. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o ddigwydd yn ystod 2017/18.

Mae Rheolwyr yr Uned Fusnes i gyd yn deall gwerth cyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi nodau'r busnes ac ar yr un pryd yn caniatáu camu ymlaen a datblygu gyrfa, ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hynny. Enghraifft sefydledig o hyn yw swyddi'r Cynorthwywyr Rheoli Datblygu, er y darperir cyfleoedd eraill drwy gyrsiau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a phrosiectau mewnol fel y Rhaglen Gwelliant Parhaus a Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol.

Caiff yr holl staff arfarniad blynyddol a chyfarfodydd un i un rheolaidd gyda rheolwyr. Trefnir seminarau hyfforddi mewnol yn rheolaidd (3 neu 4 y flwyddyn) sy'n cyfrif tuag at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae'r portffolio hefyd yn cefnogi ac yn cynnal sesiynau hyfforddi a datblygu i aelodau staff eraill, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned, gan adeiladu ar brofiadau a gwersi a ddysgwyd. Nid yw'r Cyngor Sir yn talu ffioedd aelodaeth sefydliadau proffesiynol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal seminarau rheolaidd i asiantau, ac mae hyn yn cael ei ystyried yn arbennig o berthnasol yn y cyfnod diweddar hwn o newid deddfwriaethol. Mae'r seminarau hyn yn cynnig cyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus i'r asiantau a chânt eu cynnal ym mis Mawrth a mis Medi.

Mae'r Is-adran hefyd yn cynnig hyfforddiant parhaus i Gynghorwyr Sir ac i Gynghorau Tref a Chymuned pan fo angen.

EICH STORI LEOL

Y Llwyth Gwaith: Rheoli Datblygu

Drwyddi draw mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal perfformiad cyffredinol sy'n ei gadw ar 68.13% o ran penderfynu ar geisiadau Cynllunio o bob math o fewn 8 wythnos. Mae'r cyfnod diweddar o adolygu mewnol wedi cael rhywfaint o effaith wrth i bobl ddod i ddeall systemau ac arferion newydd. Mae cyflwyno ffioedd cyn ymgeisio ym mis Mawrth 2016 yn parhau yn ddull cymharol newydd ac mae ei effaith ar y broses ymgeisio, wrthi'n cael ei fonitro.

Dangosir yn y tabl isod nifer y ceisiadau y mae'r Cyngor wedi ymdrin â hwy:

Tabl 2: Nifer y ceisiadau cynllunio yr ymdrinnir â hwy bob blwyddyn

	2011/12	2012/13		2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Nifer y ceisiadau	1788	1627		1905	1907	1663	1414

Yn gyffredinol iawn, bydd lefel y ceisiadau oddeutu 140 i bob swyddog. Mae'r ffigur hwn yn rhagdybio y bydd y tri arweinydd tîm (Uwch-swyddogion Rheoli Datblygu) yn ysgwyddo llwyth achosion llawn, er na fydd hynny'n digwydd mewn realiti oherwydd eu gwaith goruchwyllo a mentora.

Mae'r gwasanaeth Rheoli Datblygu yn adlewyrchu natur amrywiol Sir Gaerfyrddin o ran yr ardaloedd gwledig yn y gogledd a'r gorllewin, y nifer fawr o drefi marchnad hanesyddol sydd wedi'u gwasgaru ar hyd y sir, a'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn y de a'r dwyrain, gyda'u hen byllau glo a'u gweithfeydd dur. Mae'r amrywiaeth hon, sy'n cynhyrchu'r nifer drydedd fwyaf o geisiadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, yn digwydd mewn ardal ddaearyddol helaeth; mae ardal weinyddol yr Awdurdod y drydedd fwyaf a'r boblogaeth y bedwaredd fwyaf, yng Nghymru. Er bod y swyddogaeth Rheoli Datblygu yn ymdrin â niferoedd mawr o geisiadau cynllunio, mae'r ganran o geisiadau gan ddeiliaid tai yn gymharol isel (mymryn dros 20% yn y ddwy flynedd ddiwethaf), gan adlewyrchu'r nifer fwy o fân geisiadau a geir yn yr ardaloedd gwledig, yn ogystal â'r cynigion ar gyfer datblygiadau mawr ar y Safleoedd Strategol o bwys rhanbarthol, sef Caerfyrddin, Cross Hands a Llanelli, fel y nodir yn y CDLI a fabwysiadwyd.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddeall effeithiau'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau ar ddinasyddion, ac, fel y crybwyllwyd, mae'n edrych ar ffyrdd gwahanol o'u mesur, i'r graddau ei fod yn ceisio deall a mesur yn well yr amser o'r dechrau i'r diwedd i'r cwsmer. Mae yna ymrwymiad i leihau nifer y ceisiadau anghyflawn ac aflwyddiannus, ac i sicrhau dull o ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau sy'n gyson gadarnhaol a phragmatig. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr arolygon cwsmeriaid lle mae Sir Gaerfyrddin yn cael sgôr uwch na chyfartaledd Cymru mewn meysydd fel argaeledd swyddogion cynllunio i drafod materion cyn cyflwyno cais, cael cyfleoedd i ddiwygio cynigion cyn penderfynu arnynt, a dealltwriaeth o ba wybodaeth sydd ei hangen.

Mae'r Uned, a derbyn y baich gwaith ychwanegol, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd yn rhoi prawf ar ddewisiadau gweithio ystwyth fydd yn lleihau amser teithio, lleihau gwastraff a lleihau anghenion lle mewn swyddfeydd. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddi mewn digideiddio data ac mewn meddalwedd gweithio ystwyth fydd yn integreiddio systemau'r swyddfa gefn bresennol.

Mae'r maes gwasanaeth yng nghanol cyfnod o newid, ac yn ceisio ymaddasu i hynny o ran ei systemau a'i brosesau, a hybu newid mewn ymddygiad er mwyn hwyluso datblygu economaidd ac adfywio lle bo'n briodol. Erys pryderon o hyd y bydd y camau gweithredu cadarnhaol y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn eu cymryd yn hyn o beth yn cael eu herio'n afresymol gan bwysau cyllidebol yn y blynyddoedd sydd i ddod. Lluniwyd rhaglen dair blynedd bellach (2018 – 2021) o arbedion ac effeithlonrwydd, ac mae'r adolygiad gwasanaeth, er ei fod yn cael ei lywio i raddau gan hyn, hefyd yn ei gwneud yn bosibl cyflwyno a chyflawni'r arbedion yma. Mae modd i newidiadau yn y fframwaith hwn gael effaith sylweddol a negyddol ar yr agenda perfformiad sy'n cael ei dilyn.

Y Llwyth Gwaith: Blaen-gynllunio

Gan gydnabod yr angen i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i gyflenwi, a'r angen i weithio mewn amgylchedd ariannol cyfyngedig, mae'r tîm Blaen-gynllunio'n darparu gwasanaeth ymatebol i feysydd gwasanaeth eraill er mwyn helpu i ddod â safleoedd ymlaen i'w gwerthu ar y farchnad agored. Mae cynhyrchu nodiadau polisi a briffiau safle-benodol, a chymorth i baratoi a chyflwyno ceisiadau cynllunio yn ddull rhagweithiol a chadarnhaol sy'n datblygu trefniadau cydweithio. Mae'r buddion refeniw a ddaw o ganlyniad, ynghyd â'r lleihad yn y defnydd o ymgynghorwyr allanol, yn dod yn amlwg. Fodd bynnag, mae'r angen i reoli adnoddau staff yn effeithiol er mwyn sicrhau y cyflawnir y dyletswyddau craidd yn golygu fod perygl i'r rôl o golli niferoedd staff. Er y nodir y risgiau hynny, cydnabyddir bod y buddion a ddisgrifiwyd, ynghyd ag ehangu setiau sgiliau'r staff, yn cynnig cyfle parhaus. Mae'r Rheolwr Blaen-gynllunio wrthi ar hyn o bryd yn archwilio cyfleoedd pellach i helpu is-adrannau eraill i ddod â safleoedd o eiddo'r Cyngor ymlaen i'w datblygu – mae hyn yn cynnwys sut mae parhau â'r gwaith hwn pan fydd gwaith yn cychwyn ar adolygiad y CDLI ac yn dod yn flaenoriaeth.

Mae'r angen parhaus i gynnal portffolio tystiolaeth cyfredol yn hollbwysig nid yn unig o safbwynt Blaen-gynllunio a'r CDLI, ond hefyd er mwyn sicrhau y darperir gwybodaeth lawn ar gyfer gwneud penderfyniadau Rheoli Datblygu a gofynion ymgeiswyr/datblygwyr. Mae cwblhau Diweddariad 2015 i Astudiaeth Manwerthu Caerfyrddin yn ddiweddar yn enghraifft o faes polisi lle mae angen mewnbwn arbenigol, a lle mae'r amgylchiadau cyffredinol o ran ffactorau fel amodau'r farchnad mewn cyflwr o newid parhaus. O ganlyniad, mae gofyniad cysin i adolygu, dehongli a pharatoi tystiolaeth graidd, ac i sicrhau ei bod yn gadarn ac yn

dioddef ei harchwilio. Mae'r lefel uchel o ddiddordeb manwerthu a geir yn y Sir ar hyn o bryd hefyd yn creu angen am sgiliau arbenigol wrth ymateb i asesiadau o'r effaith ar fanwerthu. Mae'r angen i ddefnyddio'r fath arbenigedd, er mwyn sicrhau y deallir effeithiau ehangach cynigion datblygu, yn creu heriau o safbwynt polisi a Rheoli Datblygu. Bydd yr angen i gyflogi arbenigedd ymgynghorwyr yn parhau ar ryw ffurf er bod y Gwasanaeth yn ymgymryd â chymaint â phosibl o'r gwaith tystiolaeth yn fewnol.

Mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol yr un pryd â'r CDLI. Mabwysiadwyd Canllawiau pellach yn ffurf y canlynol ar yr 28^{ain} o Fedi 2016:

- [Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio](#);
- [Archaeoleg a Datblygiad](#);
- [Hamdden a Lle agored – Gofynion Datblygiadau Newydd](#);
- [Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth](#); a
- [Datblygu Gwledig](#).

Er bod y CDLI yn gosod cyfeiriad polisi cryf ar gyfer darpariaeth manwerthu o fewn Sir Gaerfyrddin, mae'r heriau sy'n wynebu canol tref Llanelli yn gofyn am ystyriaeth benodol. O ystyried hyn a chan gydnabod y cyfleoedd sy'n bodoli i gydlynu a datblygu ar y mentrau adfywio yng nghanol y dref a sefydlu tasglu i fynd i'r afael â materion o gwmpas ei ddirywiad, mae'r uned yn datblygu Gorchymyn Datblygu Lleol (GDLI). Bydd y GDLI hwn yn ceisio ystyried a mynd i'r afael â materion lleoedd gwag a gweithgaredd ar y llawr gwaelod ac ar y lloriau uchaf, ac edrych ar y potensial ar gyfer defnydd gwahanol o fewn rhan o Ganol Tref Llanelli. Mae'r GDLI drafft a'r Datganiad o Resymau ynghyd â thystiolaeth a dogfennaeth ategol allweddol wrthi'n cael ei gwblhau cyn ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Cafodd prif ddogfen ymgynghori'r GDLI ei chytuno gan y Cyngor ym mis Mawrth 2017.

Mae'r Cyngor, ar gyfer cyfnod yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol a'r Adroddiad Monitro Blynnyddol, wedi ymgymryd â Chyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai i ardal Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r ardal sy'n dod o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r uned hefyd ynghyd â'r Tîm Mwynau a Gwastraff yn gweithredu fel y prif awdurdod wrth baratoi Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru..

Y Llwyth Gwaith: Mwynau a Gwastraff

Mae'r galw am wasanaethau Mwynau a Gwastraff yn cynyddu oherwydd colli personél allweddol mewn Awdurdodau eraill, sy'n ychwanegu at y pwysau ar adnoddau staff presennol Cyngor Sir Gaerfyrddin yn yr Uned Mwynau a Gwastraff. Ymrwymwyd i Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ym mis Mehefin 2015, ac un arall â Chyngor Bro Morgannwg ym mis Hydref 2015. Mae'r rhain yn ychwanegol at y rhai oedd gan yr Uned eisoes.

Yr Uned sy'n darparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru (LIC) – ariennir hyn drwy grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Uned hefyd, mewn cydweithrediad ag Uned Blaen-gynllunio'r Cyngor yn gweithredu fel yr Awdurdod Arweiniol ar gyfer monitro cynllunio gwastraff yn rhanbarth de-orllewin Cymru yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae Adroddiad Interim wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer 2016/17 ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith wedi cychwyn ar adroddiad 2017/18.

O gofio'r llwyth gwaith ychwanegol, er mwyn gwella effeithlonrwydd mae'r Uned yn treialu gwahanol ddewisiadau o ran gweithio'n ystwyth a fydd yn lleihau amser teithio, yn lleihau gwastraff ac yn lleihau'r gofynion o ran gofod swyddfa. Bydd hyn yn galw am fuddsoddiad mewn digideiddio data ac mewn meddalwedd gweithio ystwyth sy'n integreiddio â'r systemau swyddfa gefn presennol.

Y Llwyth Gwaith: Cadwraeth Cefn Gwlad

Mae tirweddau Sir Gaerfyrddin a'i chynefinoedd a'i rhywogaethau yn rhai o adnoddau naturiol pwysicaf y sir. Dyma sy'n creu'r seilwaith gwyrdd sy'n darparu fframwaith i'n hiechyd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Uned yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r adnoddau hyn, eu cadwraeth, eu gwella a'u rheoli'n gyfrifol, a hynny'n gyson â Strategaeth Gymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin a gwerthoedd craidd Cyngor Sir Gaerfyrddin

Mae'r Uned yn darparu cyngor i'r uned Rheoli Datblygu, i adrannau eraill y Cyngor ac i'r cyhoedd yn gyffredinol ynglŷn â'r tirwedd, y coed, y coetiroedd, y gwrychoedd, y bioamrywiaeth a'r Tir Comin ac ynglŷn â datblygu o fewn ardal Canllawiau Cynllunio Atodol [Caeau Mynydd Mawr SPG](#). Mae hefyd yn fodd i sicrhau bod datblygiadau a gymeradwywyd a phrosiectau eraill yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac â pholisïau'r CDLI mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol.

Mae'r Uned Fusnes Cadwraeth Cefn Gwlad yn cyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol:

- Gorchmynion Cadw Coed – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999;
- Rheoliadau Gwrychoedd 1997; a
- Deddf Cofrestru Tir Comin 1965.

Mae'r Uned yn awr yn gweithio i sicrhau bod gweithrediadau'r Cyngor yn cydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a bod y Cyngor yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru fel bo angen dan y Ddeddf hon. Cwblhawyd Blaen-gynllun Deddf Amgylchedd y Cyngor ym mis Mawrth 2017.

Y Llwyth Gwaith: Rheoli Adeiladu

Mae'r Uned wedi cadw'i statws fel Ymgynghoriaeth Adeiladu Siartredig o dan y CIOB ac wedi sefydlu rhwydwaith o fwy na [75 o bartneriaid lleol](#) yn cynnwys asiantau, ymgynghorwyr a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill i sicrhau bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu. Ar y cyd â Choleg Sir Gâr, caiff seminarau/gweithdai hyfforddi rheolaidd eu cynnal er budd cwsmeriaid i ddarparu cyngor a chymorth i ddeall a dehongli newidiadau presennol i ddeddfwriaeth a newidiadau arfaethedig.

Mae'r uned hefyd wedi cymryd rhan yng ngwobrau blynyddol [Gwobrau Rhagoriaeth Adeiladu LABC](#) (Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol). Bwriad y rhain yw dathlu llwyddiant timau dylunio ac adeiladu sydd wedi cynhyrchu adeiladau eithriadol o fewn y Sir. Derbyniodd Teifi Timber Products Ltd wobwr canmoliaeth uchel yng Ngwesty Bro Morgannwg yng nghategori'r 'Adeilad Masnachol Bychan Gorau' am eu Melin Lifio o'r math diweddaraf yn Llanllwni, yng ngwobrau 2016, a derbyniodd Andrew Scott hefyd wobwr canmoliaeth uchel am ddatblygiad blaen traeth Sandhurst ym Mhorth Tywyn yng nghategori'r Tai Bychain Gorau.

Mae cynllun y Gwobrau yn ddefnyddiol, p'un a ydynt yn sirol, rhanbarthol neu genedlaethol, o ran hybu gwaith yr Uned ac mae aelodaeth sefydledig o'r LABC wedi bod yn amhrisiadwy o safbwynt hybu'r Uned.

Mae'r Uned hefyd wedi cynhyrchu llawlyfr 'Canllaw i ymestyn eich cartref'. Mae'r canllaw, sydd ar gael yn ddwyieithog ac mewn fformat electronig, wedi ei fwriadu i roi cyngor ynghylch prosiectau adeiladu bychain megis estyniad, trosi garej, trosi llofft, addasiad strwythurol ynghyd â phrosiectau bychain arferol eraill.

Y Llwyth Gwaith: Canolfan Tywi

Mae'r Uned wedi'i lleoli yn Llandeilo ac ers ei sefydlu yn 2008 mae wedi cael arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a Cadw. Mae hefyd yn cynhyrchu peth incwm drwy ddarparu gwasanaethau ymgynghorol a hyfforddi.

Mae [Rhaglen Bwrsariaeth: Adeiladu ein Treftadaeth](#) yn rhaglen benodol a reolir gan yr Uned sydd wedi cynnig hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu treftadaeth ar draws Cymru. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Adeiladu Naturiol yn Llanrwst, bydd 30 o fyfyrwyr wedi cael eu hyfforddi dros 2 flynedd, gan ddilyn yr un model hyfforddiant â'r rhaglen flaenorol, Seiliau mewn Treftadaeth. Hefyd, mae rhaglen gyflwyno ddwys i 10 merch wedi cael ei dylunio a'i chyflwyno, i hyrwyddo mwy o gydraddoldeb yn y sector adeiladu. Cwblhawyd y Prosiect hwn ym mis Mawrth 2017.

Mae'r Uned hefyd yn darparu [Gwasanaethau Ymgynghorol a Hyfforddiant](#). Mae llwyddiant cyflwyno'r Prosiect Hyfforddiant Sgiliau Traddodiadol a Gwybodaeth a ariannwyd drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2014, a'i enw da am ddarparu hyfforddiant safonol yn y sector Treftadaeth, wedi rhoi cyfle i'r Ganolfan ymchwilio i ddatblygu canolfan hyfforddiant a gwybodaeth ym maes sgiliau treftadaeth cynaliadwy. Y ffocws am y flwyddyn i ddod fydd datblygu capasiti'r Ganolfan drwy hyfforddi aseswyr a hyfforddwyr sgiliau, nodi mecanweithiau ar gyfer sefydlu canolfan hyfforddi achrededig, ac ymchwilio i gydweithio agosach â Choleg Sir Gâr, y CITB a Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru.

Mae'r Tîm a'r prosiectau wedi bodoli'n bennaf hyd yma o ganlyniad i wahanol ffrydiau ariannu. Mae ffurf y Ganolfan yn y dyfodol dan ystyriaeth ar hyn o bryd, gyda'r nod o'i gwneud yn hunangynhaliol ac yn llai dibynnol ar arian grant. Cafodd Cynllun Busnes Canolfan Tywi ei gwblhau ar ddechrau 2017. Nodai'r Cynllun fecanweithiau i sicrhau bod Canolfan Tywi yn gynaliadwy yn y tymor hir, er enghraifft drwy gynhyrchu incwm am ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth. Fodd bynnag, yr hyn a ganfu oedd, er bod marchnad yn bodoli ar gyfer y ganolfan hon, ei bod angen mwy o amser i ddatblygu. Mae'r Ganolfan felly wedi cael ei thynnu i mewn i gangen Treftadaeth y Gwasanaeth Cynllunio am y flwyddyn sydd i ddod. Efallai mai mesur dros dro fydd hwn tra bydd mecanweithiau cyflenwi addas sy'n hunan-gynaliadwy yn cael eu hastudio dros y ddwy flynedd nesaf.

Prosiectau cyfredol

Adolygiadau Gwasanaeth – Mae'r adrannau uchod wedi cyfeirio at yr adolygiadau gwasanaeth y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'u cynnal dros y blynyddoedd diwethaf, fel rhan o raglen dreigl, barhaus o wirio, cynllunio ac adolygu. Mae effeithiau hyn wedi bod yn sylweddol o ran gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei phrosesu a'i rhannu, a hefyd deall beth mae'r cwsmer yn ei ddisgwyl o ran prydlondeb ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Fel rhan o'r adolygiadau parhaus, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ystyried sut orau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghoreion, gyda phwyslais neilltuoel ar hyn o bryd ar natur a phrydlondeb ymatebion mewnoel/allanol i ymgynghoriadau. Fel y nodwyd, gwneir hyn, i ryw raddau, drwy gynnwys y partiön perthnasol cyn gynted ag sy'n bosibl yn y broses cyn cyflwyno cais, a'r bwriad yw ffurfioli hyn (yn unol â rhestr taliadau) yn ddull ar draws adrannau/asiantaethau o dan faner y Tîm Datblygu.

Gorllewin Caerfyrddin – Mae'r dull tîm hwn wedi digwydd i ryw raddau (ond heb ei ffurfioli) i fod o gymorth i gyflawni safle strategol mawr ar ymyl orllewinol Caerfyrddin. Mae'r safle'n destun Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig ar ffurf Briff Cynllunio a Datblygu a fydd yn arwain at ddarparu 1100+ o anheddau ac ysgol newydd, ynghyd â gwaith mawr i wella seilwaith ffyrdd. Bydd hefyd yn hwb i ddyheadau Prifysgol y Drindod Dewi Sant, yn ogystal â'r pencadlys newydd y mae S4C yn bwriadu ei ddatblygu.

Gorfodi Rheolau Cynllunio – Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn ystyried y ffordd y bydd yn cyflawni ei rolau a'i weithgareddau gorfodi. Bydd yn ceisio deall yr arferion gorau yn y maes, ac yn edrych ar y ffordd orau o sianelu adnoddau i'r maes hwn. Mae Aelodau wedi bod yn tynnu sylw at hwn fel mater sy'n peri pryder, ac er bod pwysau efallai i gyfuno arferion gorfodi symlach mewn un maes, mae'r Cyngor Sir wedi cydnabod bod Gorfodaeth Gynllunio'n creu heriau neilltuoel a phenodol, ac yn dal yn faes y mae'n rhaid ymdrin ag ef yn unigol. Mae hyn yn cynnwys cael y capasiti a'r gallu i sicrhau bod y strwythur a'r sylfaen staffio yn y sefyllfa orau i ddelio'n effeithiol ag ardaloedd sydd dan bwysau, a pharhau'n hyblyg wrth wneud hyn ar draws ardal ehangach Sir Gaerfyrddin. Yn ystod cyfnod yr APB nesaf caiff tîm Gorfodi newydd ei sefydlu o dan arweiniad Uwch-wyddog Gorfodi a Monitro.

Ymgynghoriaeth Blaen-gynllunio – Ochr yn ochr â'i swyddogaeth statudol barhaus a chyflawni ymrwymladau parhaus eraill, mae'r tîm Blaen-gynllunio wedi sefydlu ymgynghoriaeth gynllunio fewnoel i gynorthwyo gyda'r gwaith o sicrhau'r cyfleoedd cyflawni mwyaf posibl ar safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor, ac i sicrhau bod eglurder o ran cyfleoedd datblygu yn y dyfodol. Mae hwn yn gam pwysig wrth sicrhau'r cysylltiadau a'r cydweithredu mwyaf posibl ar draws meysydd gwasanaeth, gan sicrhau cyflenwi cost-effeithiol gyda buddion referniw yn ei sgil, a lleihau'r defnydd o ymgynghorwyr allanol. Mae, felly, yn cynnig y gwerth gorau wrth gyflawni amcanion y Cyngor. Wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn, mae'r tîm Blaen-gynllunio wedi cytuno ar raglen waith 3 blynedd gyda thîm Eiddo Corfforaethol y Cyngor sy'n cynnwys cynhyrchu briffiau cynllunio safle a chanllawiau polisi. Mae hyn yn cefnogi'r symud tuag at gynhyrchu mwy o incwm ffioedd i'r Uned a lleihau'r gwariant i'r Cyngor drwyddo draw. Cafwyd cyfarwyddiadau hefyd gan Swyddogion Adfywio a Thwristiaeth y Cyngor yn ymwneud â nifer o friffiau i hwyluso cyfleoedd datblygu economaidd a thwristiaeth a'u cynyddu i'r eithaf. Mae yna drafodaethau cychwynnol hefyd gyda'r Uned Dylunio Eiddo a Phrosiectau gyda golwg ar gynnig gwerth ychwanegol.

Tasglu – Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn rhoi cyngor fel rhan o'r Tasglu aml-wasanaeth a grëwyd i ystyried materion sy'n ymwneud â Chanol Trefi Llanelli a Rhydaman. Mewn perthynas â Llanelli, mae hyn yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o Orchymyn Datblygu Lleol i ymdrin â materion penodol yng nghanol y dref.

Fel y nodwyd, mae gan y Gwasanaeth gysylltiadau cryf â strategaeth adfywio'r Cyngor a'r tîm adfywio. Bydd y berthynas waith gref hon yn sicrhau y caiff cynigion eu cyflawni mewn ffordd gyson a chydlynol, yn unol ag egwyddorion cynllunio cadarn a pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol.

TG – Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn treialu cyfrifiaduron llechen gyda'r pwyslais ar geisio sefydlu llwybr cyfathrebu gwell â swyddogion sydd ar safleoedd a, lle bo angen, rhoi cyngor ynglŷn â sut y gellid gwella'r system fel bod modd ei theilwrio i gyfateb i'r ffordd y mae'r adran yn gweithio. Y gobaith yw lleihau swmp y papur a'r dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu wrth greu ffeil bapur gonfensiynol. Mae hyn yn digwydd ochr yn ochr â strategaeth gweithio ystwyth y Cyngor, ac yn ategol iddi, a chaiff ei gweld fel elfen allweddol er mwyn parhau i gyflenwi gwasanaeth effeithiol ar draws ardal ddaearyddol fawr Sir Gaerfyrddin. Disgwylir y caiff hyn ei gyflwyno yn Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu yn ystod 2017/18.

Prosiect Caeau Mynydd Mawr - Mae ardal Cross Hands wedi'i dynodi'n un o'r tair canolfan twf yn CDLI Sir Gaerfyrddin. Mae'r ardal hefyd yn gynefin addas i löyn byw Brith y Gors sy'n nodwedd o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Caeau Mynydd Mawr. Wrth roi'r prosiect ar waith mae'r Swyddog Prosiect Cadwraeth yn helpu i gyflawni amcanion economaidd allweddol tra'n sicrhau yr un pryd bod datblygiadau yn cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE. Caiff y swydd ei hariannu drwy dderbyniadau a sicrhawyd drwy gytundebau Adran 106, ac mae derbyniadau, yn deillio o ddatblygiadau, wedi cael eu trefnu i dalu cyflog y swyddog prosiect hyd at 2021, sy'n cyd-fynd â chyfnod y CDLI.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r prosiect wedi cyflawni'r canlynol:

- Gosod a thrwsio ffensys ar 7 safle i ganiatáu pori ar safleoedd sydd wedi'u hesgeuluso neu reoli'n well y safleoedd sydd eisoes wedi cael eu pori;
- Torri glaswellt ar 7 safle i leihau trwch y tyfiant a rheoli brwyn;
- Gwella'r draeniad ar 4 safle i wella cynefin ac i ganiatáu i dda byw fynd i bori;
- Rheoli tyfiant ar 5 safle i gynyddu maint cynefin y glaswelltir;
- Gweithio gyda 3 pherchennog da byw i gyflwyno pori i safleoedd heb anifeiliaid;
- Sefydlu cyfleusterau trin gwartheg ar 3 safle a chynorthwyo gyda phrofi am y diciâu cyn symud;
- Llosgi rheoledig i adfer glaswelltir yn barod ar gyfer pori;

Mae'r prosiect yn gweithio gyda chydweithwyr o adrannau eraill o Gyngor Sir Gaerfyrddin, Cadwraeth Gloynnod Byw, PONT, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canol a Gorllewin Cymru, Cadwraeth Gwenyn, Llywodraeth Cymru a gwirfoddolwyr i gyrraedd nodau cyffredin o fewn ardal y prosiect.

Ym mis Mawrth 2017 roedd gan y prosiect 16 cytundeb rheoli wedi eu sefydlu gyda thirfeddianwyr ac mae'n berchen ac yn rheoli 3 safle arall. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cynnwys 75.13ha o gynefin sy'n addas ar gyfer glöyn byw Brith y Gors pan fydd yn bridio.

Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin yn cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri – Mae'r Swyddog Tir Comin a'r Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad yn dal i weithio gyda'r Swyddog Bioamrywiaeth i gyflawni Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sydd wedi denu £43,000 o gymorth grant. Mae'r chwe safle sy'n perthyn i'r prosiect yn dir comin heb berchenogion hysbys: mae disgwyl felly i'r Cyngor amddiffyn y safleoedd hyn rhag gweithgareddau anghyfreithlon (daeth y cynllun i ben ym mis Rhagfyr 2016). Gyda'r grant hwn mae'r Cyngor wedi gweithio i wella statws cadwraeth y tiroedd comin hyn.

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin – Mae'r staff yn parhau i hwyluso Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (LBAP) Sir Gaerfyrddin, sy'n dwyn ynghyd yr holl sefydliadau yn y Sir sy'n ymwneud â chadwraeth natur. Mewn partneriaeth, mae'r Swyddog Bioamrywiaeth wedi cyflawni 12 prosiect ar draws y sir. Mae rhai ohonynt yn gwneud gwaith cadwraeth ymarferol, tra roedd eraill yn codi ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth ac yn datblygu'r arferion gorau o safbwynt bioamrywiaeth o fewn adrannau eraill CSC, yn unol â dyletswyddau newydd y Cyngor a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ariennir llawer o'r gwaith hwn gan grant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i'r Awdurdod.

Safle Morfa Berwig, Llanelli – Mae'r Uned Cadwraeth Cefn Gwlad yn gweithio gyda'r MCP Ranger i wella'r safle hwn ar gyfer gwarchod natur a mynediad cyhoeddus. Caiff ei ddynodi fel Gwarchodfa Natur Leol ym mis Gorffennaf 2017. Defnyddir arian Adran 106 i ariannu'r gwaith hwn.

Adolygiad Mwynau a Gwastraff – Cafodd adolygiad yr Uned Mwynau a Gwastraff o'r broses gyfredol ei ohirio yn ystod ail ran y flwyddyn oherwydd yr ailstrwythuro oedd dan ystyriaeth ar gyfer yr uned Rheoli Datblygu. Bydd yr adolygiad hwn yn ailgychwyn yn 2017/18. Y nod yw rhoi'r cyfle i'r tîm gael profiad o'r gwasanaeth o 'safbwynt y cwsmer', nodi pa broblemau sy'n effeithio ar berfformiad presennol a beth yn y system gyfredol sy'n achosi i hyn ddigwydd.

Pwysau Lleol

Yn ddiweddar rhoddwyd pwysau ar yr Uned Rheoli Datblygu oherwydd effeithiau'r gofyniad am gyfraniadau ariannol tuag at ddarparu Tai Fforddiadwy yn y Sir. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys anheddau sengl ac mae wedi creu heriau o ran yr argraff y mae'n ei roi i bobl, a'r ffordd orau o sicrhau hyn drwy gytundeb cyfreithiol. Rhoddwyd pwysau ar wasanaeth cyfreithiol y Cyngor o ganlyniad, er y bu lleihad yn nifer y staff yn y gwasanaeth hwnnw. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n awr i gynorthwyo'r Swyddogion Rheoli Datblygu i ddelio ag Ymgymeriadau Unochrog er mwyn i'r gwasanaeth cyfreithiol allu canolbwyntio ar geisiadau Adran 106. Mae cymorth cyfreithiol yn dal ar gael i'r Swyddogion Rheoli Datblygu drwy'r amser oherwydd y cydnabyddir na fydd rhai Ymgymeriadau Unochrog yn syml. Dylid gweld manteision y ffordd newydd hon o weithredu yn ystod 2017/18. Mae'n faes lle mae asiantau wedi gofyn yn gyson am welliant o ran amserlenni ac eglurder. Cydnabyddir, fodd bynnag, y gall problem adnoddau barhau o ran Adran 106 yn gyffredinol ac y bydd angen edrych ar ddatrysiadau eraill yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r 'oedi' rhwng mabwysiadu'r CDLI ynghyd â'r safleoedd newydd a neilltuwyd a symud y rhain ymlaen, yn creu heriau o ran cyflenwad 5 mlynedd, yn arbennig yn ystod y cyfnod cynnar ar ôl mabwysiadu'r CDLI (cyflenwad 4.2 blwyddyn eleni o'i gyferbynnu â 4.1 yn 2016).

Gall hyn gael yr effaith o ystumio 'gwir' ddarlun o'r cyflenwad tir ac argaeledd safleoedd y gellir eu defnyddio mewn gwirionedd yn ystod y blynyddoedd cychwynnol yn dilyn mabwysiadu. Gallai rhoi Nodyn Cyngor Technegol 1 a'i fethodoleg ar waith, ac ar yr un pryd dal i ddefnyddio'r dull blaenorol, arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau hapfasnachol ar sail ffigur cyflenwad tir 5 blwyddyn sydd yn artiffisial o isel. Bydd sefyllfa'r cyflenwad tir yn cael ei fonitro'n agos drwy'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI (ac mae'n broblem wirioneddol ar draws y mwyafrif o Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru).

Mae cyflwyno Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) ar y 1^{af} o Ebrill 2015 wedi newid, drwy eu darpariaethau, y ffordd y gellir ceisio rhwymedigaethau cynllunio drwy Gytundebau Adran 106. Yn hyn o beth, cwtogwyd yn sylweddol ar y gallu i wneud rhwymedigaethau cynllunio yn ofynnol. Mae Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn sefydlu dull llawer mwy cyfyngedig o ymdrin â rhwymedigaethau cynllunio drwy Gytundebau Adran 106. Er bod cymhwyso proses codi tâl ASC wedi ei ohirio am y tro o ran Sir Gaerfyrddin, mae effaith y ddeddfwriaeth yn parhau.

Mae effaith y ddeddfwriaeth yn golygu bod rhaid i'r profion ar gyfer gwneud rhwymedigaethau cynllunio'n ofynnol gael eu profi'n llawer mwy trwyadl, ac maent wedi golygu bod rhaid mabwysiadu dull o weithio fesul achos unigol i benderfynu ar y cyfraniadau a geisir. Bydd angen adolygu'r sylfaen dystiolaeth yn rheolaidd wrth benderfynu ar ofynion yn y dyfodol.

Hefyd, mae Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cyfyngu ar allu'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gronni cyfraniadau Adran 106. Ers y 6^{ed} o Ebrill 2015, ni ellir defnyddio mwy na 5 rhwymedigaeth gynllunio wahanol i ddarparu arian ar gyfer un prosiect seilwaith penodol. Mae goblygiadau i hyn o ran y rhwymedigaethau hynny sy'n seiliedig ar effaith gronnus ac sydd angen cyfraniadau cyfunol i'w cyflenwi. Yn ei hanfod, effaith y ddarpariaeth hon yw na all yr Awdurdod Cynllunio Lleol mwyach sicrhau rhwymedigaeth gynllunio sy'n cyfrannu at, neu'n ariannu, unrhyw brosiect seilwaith neu fath o seilwaith os pennwyd eisoes 5 rhwymedigaeth gynllunio sy'n cyfrannu at neu'n ariannu'r un prosiect neu fath o seilwaith. Mae'r cyfyngiad hwn wedi cael ei ôl-ddyddio ac mae'n cymryd i ystyriaeth yr holl rhwymedigaethau cynllunio a bennwyd ers y 6^{ed} o Ebrill 2010.

Yn draddodiadol, mae Cytundebau Adran 106 wedi bod yn fwy cyffredinol eu natur, gan nodi fel arfer faes cyffredinol lle dylid gwario'r arian. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na fydd mwy na 5 cyfraniad cyfunol, mae'r Cyngor yn ceisio rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer seilwaith penodol a nodir, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r profion a nodir yn Rheoliad 122. Mae'r heriau hyn yn nodedig nid yn unig o safbwynt ariannol, ond hefyd o safbwynt cyflawni prosiectau. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael eu cynhyrchu mewn perthynas â'r gofynion Hamdden a Mannau Agored i ddatblygiadau newydd, sy'n ceisio rhoi mwy o eglurder ynglŷn â chydymffurfio â darpariaethau Rheoliadau'r ASC. Caiff Canllawiau Cynllunio Atodol pellach eu cyhoeddi maes o law.

YR HYN Y MAE DEFNYDDWYR Y GWASANAETH YN EI FEDDWL

Yn 2016-17 fe wnaethom gynnal arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r bwriad o asesu barn y bobl oedd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd yr arolwg at 594 o bobl a chyflwynodd 18% o'r rhain ymateb cyflawn neu rannol. Daeth mwyafrif yr ymatebion (55%) oddi wrth aelodau o'r cyhoedd. Roedd cais cynllunio diweddaraf 8% o'r rhai a ymatebodd wedi cael ei wrthod.

Gofynasom i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau am y gwasanaeth cynllunio. Rhoddwyd y dewisiadau canlynol iddynt fel atebion:

- Cytuno'n llwyr;
- Tueddu i gytuno;
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno;
- Tueddu i anghytuno; ac
- Anghytuno'n llwyr.


Dengys Tabl 1 ganran yr ymatebwyr a ddewisodd naill ai 'tueddu i gytuno' neu 'cytuno'n llwyr' fel ateb i bob gosodiad ynghylch ein hawdurdod cynllunio ni a Chymru. Fel y gellir gweld mae Sir Gaerfyrddin yn parhau yn uwch na chyfartaledd Cymru mewn perthynas â'r holl categorïau.

Tabl 1: Canran yr ymatebwyr a gytunai â phob gosodiad, 2016-17

Canran yr ymatebwyr a gytunai:	%	
	ACLI Sir Gaerfyrddin	Cymru
Fod yr ACLI yn gorfodi ei reolau cynllunio yn deg ac yn gyson	58	52
Bod yr ACLI wedi rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	64	62
Bod yr ACLI yn rhoi cymorth trwy gydol y broses, gan gynnwys gydag amodau	61	52
Bod yr ACLI wedi ymateb yn brydlon pan oedd cwestiynau ganddynt	63	61
Eu bod wedi cael gwrandawriad ynghylch eu cais	62	59
Eu bod wedi derbyn gwybodaeth yn rheolaidd ynghylch eu cais	57	51
Eu bod yn fodlon yn gyffredinol â'r ffordd yr ymdriniodd yr ACLI â'u cais	62	61

Hefyd, gofynasom i'r ymatebwyr ddewis, oddi ar restr, dair nodwedd o'r gwasanaeth cynllunio a fyddai, yn eu tyb nhw, yn eu cynorthwyo fwyaf i gyflawni datblygiadau llwyddiannus. Dengys Ffigur 1 ganran yr ymatebwyr a ddewisodd bob nodwedd fel un o'u tri dewis. I ni, y dewis mwyaf poblogaidd oedd "argaeledd cynllunydd ar ddyletswydd i siarad ag ef cyn cyflwyno cais".

Ffigur 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, ACLI Sir Gaerfyrddin, 2016-17



Mae sylwadau penodol a dderbyniwyd yn yr adborth yn cynnwys:

- “Ymdriniwyd â’m cais cynllunio mewn ffordd broffesiynol a phrydlon. Ni chefais broblemau wrth drafod fy syniad gyda’r swyddfa gynllunio cyn fy nghais cynllunio. Roedd hyn yn golygu bod y broses yn rhydd o straen.”
- “Sir Gaerfyrddin yw’r ACLI gorau a mwyaf rhagweithiol yr wyf wedi dod ar ei draws.”
- “Mae cyngor diduedd am ddim drwy gydol y broses yn gymorth mawr i bobl gyda’u proses gynllunio a dylai barhau am ddim gan fod yna adegau pan fydd arnoch angen gwybodaeth ychwanegol a phe bai’n rhaid i chi dalu yna mae’n ei wneud yn fwy o waith i bawb dan sylw ac mae’n creu enw am wasanaeth gwael. Rydym yn talu ffi cais cynllunio a dylai cyngor a chymorth fod yn rhan o hynny.”

EIN PERFFORMIAD YN 2016-17

Mae'r adran hon yn disgrifio ein perfformiad yn 2016-17. Mae'n ystyried dangosyddion y Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data eraill sydd ar gael i helpu i greu darlun cynhwysfawr o'n perfformiad. Lle bo'n briodol, rydym yn cymharu ein perfformiad ni â darlun Cymru gyfan.

Caiff perfformiad ei ddadansoddi ar draws y pum agwedd ar ddarparu gwasanaeth cynllunio fel y'u nodir yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Gwneud cynlluniau;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; a
- Gorfodi.

Gwneud Cynlluniau

Fel ar 31 Mawrth 2017, roeddem yn un o'r 22 ACLI oedd â chynllun datblygu lleol yn ei le.


Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, roedd gennym 4.2 blynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai wedi'i nodi, ac felly roeddem yn un o'r 19 ACLI yng Nghymru oedd heb y cyflenwad 5 mlynedd gofynnol. Dengys y tabl ar dudalen 35 y ffigur fel 4.1 blynedd. Fodd bynnag, hwn oedd y data ar gyfer 2016/17, sef y cymharydd a ddefnyddir ledled Cymru gan nad yw pob ACLI wedi cwblhau eu harolwg am 2017 mewn pryd ar gyfer yr APB hwn.

Effeithlonrwydd

Mae'r adran nesaf yn egluro pa mor fuan y gwnaeth yr ACLI ymdrin â'r gwahanol fathau o geisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno. Ceir sylwebaeth gyffredinol ar yr ychydig setiau data nesaf (Ffigurau 2-7) ar ddiwedd yr adran hon ar Effeithlonrwydd (tudalen 28 - 30).

Yn 2016-17 penderfynasom ar 1414 o geisiadau cynllunio, pob un yn cymryd, ar gyfartaledd, 95 diwrnod (14 wythnos) i'w benderfynu. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 76 diwrnod (11 wythnos) ledled Cymru. Dengys Ffigur 2 yr amser cyfartalog a gymerwyd gan bob ACLI i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.


Ffigur 2: Amser ar gyfartaledd (diwrnodau) a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau, 2016-17



Penderfynwyd ar 70% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn y cyfnod o amser oedd yn ofynnol. Roedd hyn islaw y targed o 80%. Yn gyffredinol, 20 allan o'r 25 ACLI a gyrhaeddodd y targed o 80%.


Dengys ffigur 3 ganran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnod gofynnol o amser ar draws y pedwar prif fath o gais ar gyfer ein ACLI ni a Chymru. Dengys ein bod ni wedi penderfynu ar 87% o geisiadau gan ddeiliaid tai o fewn y cyfnod gofynnol o amser.

Ffigur 3: Canran y ceisiadau cynllunio y benderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser, fesul math, 2016-17



Rhwng 2015-16 a 2016-17, fel y dengys Ffigur 4, arhosodd canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd gennym o fewn y cyfnod gofynnol o amser yr un fath ar 70%. Gwelodd Cymru gynnydd eleni.

Ffigur 4: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser




Dros yr un cyfnod:

- Cynyddodd y nifer o geisiadau a dderbyniasom (sylwer ei fod yn wahanol i nifer y ceisiadau y penderfynwyd arnynt); a
- Gostyngodd nifer y ceisiadau a gymeradwywyd gennym (o 91% i 86%).

Ceisiadau Mawr

Penderfynasom ar 38 o geisiadau cynllunio mawr yn 2016-17; roedd 11% (4 cais) o'r rhain yn destun EIA. Cymerodd pob cais (gan gynnwys y rheiny oedd yn destun EIA), ar gyfartaledd, 567 diwrnod (81 wythnos) i'w benderfynu. Fel y dengys ffigur 5, dyma'r amser cyfartalog hiraf a gymerwyd o bob ACLI yng Nghymru.


Ffigur 5: Amser cyfartalog (diwrnodau) a gymerwyd i benderfynu ar gais mawr, 2016-17



Penderfynwyd ar 16% o'r ceisiadau mawr hyn o fewn y cyfnod gofynnol o amser, yr ail ganran isaf o bob ACLI yng Nghymru.

Dengys Ffigur 6 ganran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser fesul math o gais mawr. Penderfynwyd ar 6% o'n ceisiadau mawr 'arferol' h.y. y rheiny nad oeddent angen EIA, o fewn y cyfnod statudol o 8 wythnos.

Ffigur 6: Canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser yn ystod y flwyddyn, fesul math, 2016-17




At hynny penderfynasom ar 75% o geisiadau mawr oedd yn destun CPA yn y cyfnodau o amser y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

Ers 2015-16 roedd canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser wedi gostwng o 17%. Yn yr un modd, lleihaodd nifer y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt tra y cynyddodd nifer y ceisiadau oedd yn destun EIA yn ystod y flwyddyn.

Dengys Ffigur 7 y duedd yn y ganran o geisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser yn y blynnyddoedd diwethaf a sut y mae hyn yn cymharu â Chymru.

Ffigur 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser



Dros yr un cyfnod:

- Gostyngodd canran y mân geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser o 74% i 70%;
- Arhosodd canran y ceisiadau gan ddeiliaid tai y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser yr un fath ar 87%; a
- Chynyddodd canran y ceisiadau eraill y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod gofynnol o amser o 69% i 76%.

Mae angen i'r ACLI ystyried ymhellach y canlyniadau yn yr adran Effeithlonrwydd hon. Mae rhai trafodaethau cynnar mewn fforwm Cymru gyfan o Brif Swyddogion Cynllunio yn awgrymu bod rhai o'r canlyniadau sy'n ymddangos yn is na'r cyfartaledd yn ganlyniad pwyslais parhaus Sir Gaerfyrddin ar weithio gydag ymgeisydd i sicrhau cymeradwyaeth. Mewn llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol y targed sy'n gyrru'r penderfyniadau – gyda'r canlyniad bod y cyfraddau gwrthod yn uwch nag a geir yn Sir Gaerfyrddin. Mae llawer o'r ceisiadau hynny a wrthodwyd yn cael eu cymeradwyo ymhén amser drwy gais dilynol, sydd wrth reswm yn cymryd amser ychwanegol. Hyd yma, mae'r adolygiad proses a gynhaliwyd ar gyfer ACLI Sir Gaerfyrddin a thrafodaeth gydag ymgeiswyr yn dangos y byddai'n well gan ymgeiswyr yn gyffredinol weithio gyda'r ACLI i sicrhau cymeradwyaeth er iddo gymryd mwy o amser na chael gwrthod caniatâd a gorfod ailgyflwyno cais. Nid yw pob ymgeisydd o'r un farn ac mae angen i'r ACLI fabwysiadu dull cytbwys yn yr achosion hynny a bod yn barod i wrthod.

Mae'n glir hefyd oddi wrth drafodaeth Cymru gyfan yn ddiweddar fod y rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru yn gwneud gwell defnydd o fecanwaith 'estyniad amser' a gyflwynwyd yn ddiweddar drwy is-ddeddfwriaeth yng Nghymru. Mae hyn yn galluogi'r ACLI i drafod a chytuno ar ddyddiad targed newydd gyda'r ymgeisydd. Felly mae llawer o Awdurdodau yn cyflawni canran uwch o benderfyniadau ar y targed, er y bydd y cyfnod o amser yn hirach na'r targed statudol cychwynnol. Mae angen i ACLI Sir Gaerfyrddin edrych ar hyn a'i fabwysiadu fwy mewn perthynas â cheisiadau yn y dyfodol gan y byddai'n arwain at welliant sylweddol yn y % o geisiadau y penderfynir arnynt mewn pryd. Wrth gwrs, nid yw'n adlewyrchu'r swm o amser a gymerir yn gyfan gwbl.

Mae hefyd yn amlwg fod Sir Gaerfyrddin yn derbyn y nifer trydydd uchaf o geisiadau cynllunio o'r holl Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru. Mae'r ffordd mae hyn i gael ei reoli angen ei ystyried wrth weithredu'r strwythur newydd yn ystod 2017/18. Mae angen ystyried a yw'r gwasanaeth yn derbyn adnoddau digonol i ymdrin â'r lefel hon o geisiadau cynllunio – yn enwedig o safbwynt mewnbyn gan staff arbenigol mewn Unedau eraill (Prifffyrdd, Ecoleg, Draeniad ac yn y blaen).

Ansawdd


Mae'r adran nesaf yn canolbwyntio ar ansawdd y penderfyniad cyffredinol a wnaed – Wnaethom ni'r penderfyniad cywir? Sut gwnaethom ni yn yr apêl? Ceir sylwebaeth gyffredinol ar yr ychydig setiau nesaf o ddata (Ffigurau 8-9) ar ddiwedd yr Adran hon ar Effeithlonrwydd (tudalen X).

Yn 2016-17, gwnaeth ein Pwyllgor Cynllunio 100 o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, oedd yn cyfateb i 7% o'r holl geisiadau y penderfynwyd arnynt. Ar draws Cymru, 6% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a gafodd eu gwneud gan bwyllgor cynllunio.

Aeth 8% o'r penderfyniadau hyn a wnaed gan aelodau yn erbyn cyngor y swyddogion. Roedd hyn yn cymharu gydag 11% o benderfyniadau a wnaed gan aelodau ar draws Cymru. Roedd hyn yn gymaint â 0.6% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn mynd yn erbyn cyngor swyddogion; 0.7% ar draws Cymru.

Yn 2016-17 derbyniasom 23 apêl yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, oedd yn gymaint â 1.6 apêl ar gyfer pob 100 o geisiadau a dderbyniwyd. Ar draws Cymru, derbyniwyd 2 apêl ar gyfer pob 100 o geisiadau. Dengys Ffigur 8 sut mae nifer yr apeliadau a dderbynnir wedi newid ers 2015-16 a sut y mae hyn yn cymharu â Chymru.


Ffigur 8: Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd fesul 100 o geisiadau cynllunio



Yn 2016-17 fe wnaethom gymeradwyo 94% o geisiadau cynllunio. Mae hyn yn cymharu â 91% ar draws Cymru.

O'r 25 apêl y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 60%. Fel y dengys Ffigur 9, roedd hyn yn is na'r ganran o apeliadau a wrthodwyd ar draws Cymru yn ei chyfanrwydd ac roedd islaw'r targed o 66%

Ffigur 9: Canran yr apeliadau a wrthodwyd yn 2016-17



Yn ystod 2016-17 cafodd 1 cais gennym am gostau mewn apêl adran 78 ei gadarnhau, gan ein gwneud yn un o'r 11 ACLI i gael cadarnhau cais o'r fath yn y flwyddyn.

Dengys yr adran uchod fod cyfradd is o apeliadau yn cael eu cyflwyno yn Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol. Mae'n debygol bod hyn i'w briodoli i lefel uchel barhaus o gymeradwyaeth o gymharu â llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill (86%).

O'r apeliadau a wrthodwyd, mae'r lefel o wrthodiadau yn dal islaw y cyfartaledd i Gymru.

Ymgysylltu

Rydym yn:

- Un o 24 o Awdurdodau Cynllunio Lleol a ganiataodd i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio; ac yn
- Un o 20 o Awdurdodau Cynllunio Lleol oedd â chofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio.

Fel y dengys Tabl 2, cytunai 64% o ymatebwyr i'n harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid 2016-17 fod yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w cynorthwyo i wneud cais llwyddiannus.

Tabl 2: Adborth o'n Harolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid 2016-17

	%	
	ACLI Sir Gaerfyrddin	Cymru
Canran yr ymatebwyr a gytunai:		
Rhoddai'r ACLI gyngor da i'w cynorthwyo i wneud cais llwyddiannus.	64	62
Cawsant wrandawriad ynghylch eu cais	62	59

Mae adborth cyffredinol ynghylch y gwasanaeth yn parhau uwchlaw y cyfartaledd cenedlaethol.


Gorfodi

Ceir sylwebaeth gyffredinol ar yr ychydig setiau data nesaf (Ffigurau 8-9) ar ddiwedd yr Adran hon ar Effeithlonrwydd (Tudalen 42 - 44)

Yn 2016-17 ymchwiliad i 434 achos gorfodi, oedd gymaint â 2.3 y 1,000 o'r boblogaeth. Roedd hyn yn cymharu â 1.9 achos gorfodi y 1,000 o'r boblogaeth ar draws Cymru. Cymerasom, ar gyfartaledd, 123 diwrnod i ymchwilio i bob achos gorfodi.

Ymchwiliad i 67% o'r achosion hyn o fewn 84 diwrnod. Ar draws Cymru ymchwiliwyd i 85% o fewn 84 diwrnod. Dengys Ffigur 10 ganran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt mewn 84 diwrnod ar draws pob ACLI yng Nghymru.

Ffigur 10: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt mewn 84 diwrnod yn 2016-17




Dros yr un cyfnod, fe wnaethom ddatrys 412 o achosion gorfodi, gan gymryd, ar gyfartaledd, 134 diwrnod i ddatrys pob achos.

Cymerwyd 83% o'r camau gorfodi hyn o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos. Fel y dengys Ffigur 11 roedd hyn yn cymharu â 73% o achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 180 diwrnod ledled Cymru.

Fel y gellir gweld mae'r nifer o achosion gorfodi y bu Sir Gaerfyrddin yn ymdrin â hwy yn fwy na'r nifer cyfartalog o achosion yr ymchwiliwyd iddynt ar draws Cymru. Er bod y nifer yr ymchwiliwyd iddynt yn yr amser yn is na'r cyfartaledd, mae'r nifer a gafodd eu datrys o fewn y cyfnodau o amser a ragnodwyd yn fwy na chyfartaledd Cymru o 180 diwrnod.

Mae Tîm Gorfodi newydd yn cael ei sefydlu yn ystod 2017/18. Bydd yr Uwch Swyddog ynghyd â'i dîm newydd angen ystyried unrhyw welliannau pellach allai fod yn bosibl mewn perthynas â pherfformiad yn gyffredinol.

Ffigur 11: Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys mewn 180 diwrnod yn 2016-17



ATODIAD A – FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

MESUR	DA	GWEDDOL	ANGEN GWELLA
Gwneud cynlluniau			
Oes yna Gynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Na
Y gwyrriad, wrth baratoi CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd	<12	13-17	18+
Adroddiadau Monitro Blynnyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Oes		Na
Cyflenwad tir presennol yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai mewn blynnyddoedd	>5		<5
Effeithlonrwydd			
Canran y ceisiadau “mawr” y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau “mawr” (diwrnodau)	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu

CYFARTALEDD CYMRU	SIR GAERFYRDDIN Y LLYNEDD	SIR GAERFYRDDIN ELENÍ
Oes	Oes	Oes
58	D/B	D/B
Oes	Oes	Oes
2.9	3.7	4.1
59	17	16
250	268	567

MESUR	DA	GWEDDOL	ANGEN GWELLA
Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol	>80	60.1-79.9	<60
Amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	<67	67-111	112+
Ansawdd			
Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	5.1-8.9	9+
Canran yr apeliadau a wrthodwyd	>66	55.1-65.9	<55
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	0	1	2+
Ymgysylltu			
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Ydy		Na
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Na

CYFARTALEDD CYMRU	SIR GAERFYRDDIN Y LLYNEDD	SIR GAERFYRDDIN ELENÍ
87	70	70
76	93	95
11	10	8
61	71	60
0	0	1
Ydy	Ydy	Ydy
Oes	Oes	Oes

MESUR	DA	GWEDDOL	ANGEN GWELLA
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhannol	Na
Gorfodi			
Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (penderfynwyd a oedd rheolau cynllunio wedi eu torri ac, os felly, penderfynwyd a fyddai cymryd camau gorfodi yn addas ai peidio) o fewn 84 diwrnod	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Canran yr achosion gorfodi lle mae camau gorfodi'n cael eu cymryd neu y mae cais ôl-weithredol yn cael ei dderbyn o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle roedd gorfodi'n addas)?	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu

CYFARTALEDD CYMRU	SIR GAERFYRDDIN Y LLYNEDD	SIR GAERFYRDDIN ELENÍ
Oes	Oes	Oes
85	63	67
74	143	123
73	78	83
201	142	134

ADRAN 1 – GWNEUD CYNLLUNIAU

Dangosydd	01. Oes yna Gynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	
“Da”	“Gweddol”	“Angen Gwella”
Mae Cynllun Datblygu cyfredol (CDLI neu CDU) yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun	D/B	Nid oes cynllun datblygu cyfredol yn ei le (gan gynnwys lle mae'r cynllun wedi dod i ben)

Perfformiad yr Awdurdod	Da
Cafodd y CDLI ei fabwysiadu ar 10 Rhagfyr 2014 ac mae'n darparu fframwaith polisi defnydd tir cyfredol a chadarn.	

Dangosydd	02. Y gwyriad, wrth baratoi CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd.	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Mae'r CDLI yn cael ei symud ymlaen o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol	Mae'r CDLI yn cael ei symud ymlaen o fewn 12 i 18 mis i'r dyddiadau a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol	Mae'r CDLI yn cael ei symud ymlaen fwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiad a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol

Perfformiad yr Awdurdod	Dim yn berthnasol
Mabwysiadwyd y CDLI ar 10 Rhagfyr 2014. Nid oes adolygiad wedi cael ei ysgogi eto nac wedi cychwyn ar y 31 ^{ain} o Fawrth 2017.	

Dangosydd	03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	
“Da”		“Angen gwella”
Mae'n amser cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol, ac mae un wedi'i baratoi		Mae'n amser cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ac nid oes un wedi'i baratoi

Perfformiad yr Awdurdod	Da
Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol wedi ei gynhyrchu, a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017. Cymeradwywyd gan y Cyngor ar yr 20 ^{fed} o Fedi 2017.	

Dangosydd	04. Cyflenwad tir presennol yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai mewn blynyddoedd	
"Da"		"Angen gwella"
Mae gan yr awdurdod gyflenwad o dir ar gyfer tai am 5 mlynedd neu fwy		Mae gan yr awdurdod gyflenwad o dir ar gyfer tai am lai na 5 mlynedd

Perfformiad yr Awdurdod	4.1 – Angen gwella
Mae'r mater hwn yn cael ei drafod yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI 2016/17. Bydd y materion ynghylch cyflenwad 5 mlynedd yn cael eu hystyried a'u trin fel rhan o adolygiad y CDLI. Mae mater cyflenwad llai na 5 mlynedd yn gyffredin i'r rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae canlyniadau Sir Gaerfyrddin yn rhagori llawer ar gyfartaledd Cymru sef 2.9. Dylid nodi, oherwydd bod data ar gael ar draws Cymru bod y canlyniad yn yr APB bob amser flwyddyn allan ohoni a bod y canlyniad uchod ar gyfer yr 31^{ain} o Fawrth 2016. Mae Sir Gaerfyrddin wedi cwblhau ei hastudiaeth 2017 ac mae'r canlyniad yn dangos cyflenwad 4.2 blynedd.	

ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD

Dangosydd	05. Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau gofynnol o amser	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	16%
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu meincnod ar gyfer y Dangosydd hwn hyd yma. Rhoddwyd sylwebaeth yn adran Effeithlonrwydd yr APB ar y canlyniad hwn (gweler tudalen x). Mae'r sylwebaeth yn cydnabod yr angen i'r ACLI wneud gwell defnydd o'r darpariaethau newydd i gytuno ar 'estyniad amser' gydag ymgeisydd. Bydd hyn yn gwella'r canlyniadau o dan y mesur hwn yn ddramatig.	

Dangosydd	06. Amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	567 o ddiwrnodau
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu meincnod ar gyfer y Dangosydd hwn.	
Rhoddwyd sylwebaeth yn adran Effeithlonrwydd yr APB ar y canlyniad hwn (gweler tudalen x).	

Dangosydd	07. Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Penderfynir ar 80% neu fwy o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynir ar rhwng 60% ac 80% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynir ar lai na 60% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	70% - Gweddol
Mae'r perfformiad ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 87%.	
Rhoddwyd sylwebaeth yn adran Effeithlonrwydd yr APB ar y canlyniad hwn (gweler tudalen x).	
Mae'r sylwebaeth yn cydnabod yr angen i'r ACLI wneud gwell defnydd o'r darpariaethau newydd i gytuno ar 'estyniad amser' gydag ymgeisydd. Bydd hyn yn gwella'r canlyniadau o dan y mesur hwn yn ddramatig.	

Dangosydd	08. Amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Llai na 67 diwrnod	Rhwng 67 a 111 diwrnod	112 diwrnod neu fwy

Perfformiad yr Awdurdod	95 diwrnod - Gweddol
Mae perfformiad yn uwch na chyfartaledd Cymru o 76 diwrnod. Mae hyn yn welliant ar y llynedd oedd yn 93 diwrnod.	
Rhoddwyd sylwebaeth yn adran Effeithlonrwydd yr APB ar y canlyniad hwn (gweler tudalen x).	

ADRAN 3 - ANSAWDD

Dangosydd	09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Llai na 5% o'r penderfyniadau	Rhwng 5% a 9% o'r penderfyniadau	9% neu fwy o'r penderfyniadau

Perfformiad yr Awdurdod	8% - Gweddol
Mae'r perfformiad yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru o 11% o benderfyniadau yn cael eu gwneud gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion ar gyfer 2016/17. Mae hyn yn dangos gwelliant ar 2015/16. Lle mae'r Pwyllgor Cynllunio yn mynd yn groes i argymhellion swyddogion, caiff y rhesymau am hyn (gan gynnwys y sail o ran polisi) eu cynnwys o fewn cofnodion y Cyngor. Mae'r ACLI yn gwneud mwy o ddefnydd o ddigwyddiadau hyfforddi Aelodau dyranedig i gynyddu ymwybyddiaeth o ran gwaith y Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau.	

Dangosydd	10. Canran yr apeliadau a wrthodwyd	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Mwy na 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl

Perfformiad yr Awdurdod	60% - Gweddol

Dangosydd	11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Nid yw'r awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn

Perfformiad yr Awdurdod	1 - Gweddol
Mae'r cais am gostau yn cyfeirio at ddatblygiad Un Blaned. Argymhellai adroddiad swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio fod y cais yn cael ei gymeradwyo. Aeth y Pwyllgor i ymweld â'r safle ac yn dilyn hynny gwrthododd y cais. Apeliodd yr ymgeisydd yn erbyn y penderfyniad a dyfarnwyd y costau iddo. Adroddwyd yn ôl am y canlyniad hwn a chanfyddiadau'r Arolygwr wrth y Pwyllgor Cynllunio.	

ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

Dangosydd	12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	
"Da"		"Angen gwella"
Mae aelodau'r cyhoedd yn cael annerch y Pwyllgor Cynllunio		Nid yw aelodau'r cyhoedd yn cael annerch y Pwyllgor Cynllunio

Perfformiad yr Awdurdod	Da
Mae ACLI Sir Gaerfyrddin yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio.	

Dangosydd	13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	
"Da"		"Angen gwella"
Gall aelodau'r cyhoedd geisio cyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd		Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael

Perfformiad yr Awdurdod	Da
Er nad oes system ffurfiol o "swyddog ar ddyletswydd", mae swyddogion ar gael i ymdrin ag ymholiadau/cwestiynau y cyhoedd yn gyffredinol. O ganlyniad byddai'r ACLI yn dadlau na ddylid ei gategoreiddio fel un sydd angen gwella, a phroses adolygu leol wedi canfod bod y dull presennol yn cael ei dderbyn yn well ac yn fwy effeithlon na'r system flaenorol o swyddog ar ddyletswydd.	

Dangosydd	14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Mae'r dogfennau i gyd ar gael ar-lein	Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar lein. Rhaid gwneud cais uniongyrchol i weld dogfennau eraill	Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar lein

Perfformiad yr Awdurdod	Da
Mae'r ACLI yn cyhoeddi'r holl fanylion yn ymwneud â Chais Cynllunio ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin.	

ADRAN 5 – GORFODI

Dangosydd	15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (penderfynwyd a oedd y rheolau cynllunio wedi cael eu torri ac, os felly, penderfynwyd a fyddai cymryd camau gorfodi yn addas ai peidio) o fewn 84 diwrnod	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	67%
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu meincnod ar gyfer y Dangosydd hwn.	

Dangosydd	16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	123 diwrnod
Nid oes meincnod wedi ei bennu ar gyfer y Dangosydd hwn, ond mae uwchlaw cyfartaledd Cymru o 74 diwrnod.	

Dangosydd	17. Canran yr achosion gorfodi lle mae camau gorfodi'n cael eu cymryd neu y mae cais ôl-weithredol yn cael ei dderbyn o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle roedd gorfodi'n addas)	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	83%
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu meincnod ar gyfer y Dangosydd hwn hyd yma.	
Mae canlyniad 2016/17 yn uwch na chyfartaledd Cymru o 73%, ac roedd yn dangos gwelliant ar ganlyniad Sir Gaerfyrddin yn 2015/16 o 78%.	

Dangosydd	18. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	134 diwrnod
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu meincnod ar gyfer y Dangosydd hwn. Mae nifer y diwrnodiau a gymerir i gymryd camau gorfodi yn Sir Gaerfyrddin yn sylweddol lai na'r cyfartaledd yng Nghymru (201 diwrnod). Mae Sir Gaerfyrddin felly yn perfformio yn llawer gwell na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru o ran yr amser a gymerir i gymryd camau Gorfodi. Mae'r canlyniad yn dangos gwelliant hefyd ar ganlyniad y llynedd o 142 diwrnod.	

ADRAN 6 – DANGOSYDDION DATBLYGU CYNALIADWY

Diben y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad y mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Bydd y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn cael eu defnyddio i fesur y cynnydd yn erbyn amcanion cynaliadwyedd cynllunio cenedlaethol, a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid rôl a chwmpas y system gynllunio wrth gyflawni amcanion ehangach. Bydd y wybodaeth hefyd yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol er mwyn deall mwy am ganlyniadau'r system gynllunio a bydd yn help i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Cyflwyniadau'r Awdurdod	Yn chwarter 1 - cyflwynwyd y data'n rhannol (gweler y dangosydd datblygu cynaliadwy unigol isod) Yn chwarter 2 – cyflwynwyd y data'n rhannol (gweler y dangosydd datblygu cynaliadwy unigol isod) Yn chwarter 3 – cyflwynwyd y data'n rhannol (gweler y dangosydd datblygu cynaliadwy unigol isod) Yn chwarter 4 – cyflwynwyd y data'n rhannol (gweler y dangosydd datblygu cynaliadwy unigol isod)
Bob chwarter mae'r Awdurdod wedi cyflwyno'n rhannol y data y gofynnwyd amdano fel rhan o broses y dangosyddion datblygu cynaliadwy. Gwnaed cyflwyniadau fel a ganlyn: 1. Cyflwyniadau wedi'u cwblhau 2. Cyflwyniadau wedi'u cwblhau 3. Cyflwyniadau wedi'u cwblhau 4. Cyflwyniadau wedi'u cwblhau 5. Ni chyflwynwyd data. Nid oes gan yr ACLI system yn ei lle ar hyn o bryd i fonitro cyfanswm arwynebedd tir datblygiadau tir llwyd / tir glas. 6. Ni chyflwynwyd data. Nid oes gan yr ACLI system yn ei lle ar hyn o bryd i fonitro cyfanswm arwynebedd a enillwyd/a gollwyd mewn perthynas â mannau agored. 7. Ni chyflwynwyd data. Rhan A – fodd bynnag, mae data wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Nid yw Rhan B yn berthnasol gan nad yw'r Awdurdod Cynllunio wedi mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol. Nid oedd llawer o'r data y nodwyd bod angen ei gasglu ar gael yn rhwydd am y rhesymau canlynol: • Yr amser sydd ei angen i ddiweddarau systemau ceisiadau cynllunio: Mae'r ACLI ar hyn o bryd yn defnyddio MIS LGS (cynnyrch Headway yn benodol) i weinyddu ei broses ceisiadau cynllunio. Yng nghanol 2014, hysbyswyd yr Awdurdod bod MIS LGS yn cael ei brynu allan. Ar y pryd dywedwyd wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai cynnyrch Headway yn dod i ben dros y ddwy flynedd ddilynol. Felly, mae'r ACLI wedi bod yn gweithio tuag at ddatrys arall yn ei le. Dylai hyn gael ei ddatrys yn ystod 2018, gyda'r cynnyrch newydd yn barod i ymdrin â monitro yn llawer mwy effeithiol na'i ragflaenydd (yn cynnwys dangosyddion Datblygu Cynaliadwy (DC)). Yn y cyfamser, Headway yw'r system y mae'r ACLI yn dibynnu arni. Ni fu modd i'r ACLI gael na gofyn am newidiadau i system Headway yn y cyfamser – nid oedd diweddariadau/addasiadau ar gael oherwydd bod y cynnyrch yn cael ei ddirwyn i ben. Mae hyn felly wedi effeithio ar gofnodi a chasglu data DC a bydd yn	

parhau i wneud hynny hyd nes y bydd y gwaith o newid i'r system newydd wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

- Mae'r ACLI yn cydnabod, gan ein bod erbyn hyn hanner y ffordd drwy gyfnod y trydydd APB (2016/17), na fydd unrhyw system newydd yn ei lle i gasglu'n llawn y manylion ar gyfer yr APB tan y pumed APB (2018/19).

Bydd yr ACLI yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac yn rhoi gwybod pa mor briodol yw'r gwahanol ddangosyddion datblygu cynaliadwy. Dylai fod cyfnod arweiniol wrth gyflwyno unrhyw newidiadau i'r dangosyddion, neu wrth gyflwyno rhai newydd, a fydd yn caniatáu i systemau gael eu diweddarau cyn dechrau blwyddyn yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol y mae'r data i gael ei adrodd ar ei chyfer.

Dangosydd	SD1. Arwynebedd llawr (metrau sgwâr) y rhoddwyd ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio iddo ar gyfer datblygiad economaidd newydd, ar safleoedd a neilltuwyd ar gyfer cyflogi, yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Caniatawyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	291

Gwrthodwyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	Dim data ar gael

2 gais mawr sydd i gyfrif yn bennaf am y ffigur a roddir uchod mewn perthynas â'r ceisiadau a ganiatawyd:

W/33814 – DYMCHWEL ADEILAD PRESENNOL A DDEFNYDDIR I DDIBENION ARDDANGOS A STORIO NWWYDDAU SIOP (CYSYLLTIEDIG Â'R SIOP A SWYDDFEYDD). CODI ADEILAD MWY YN EI LE AR YR UN SAFLE, A DDEFNYDDIR AR GYFER ARDDANGOS, STORIO A CHAFFI BYCHAN – 75 metr sgwâr (A1-A3) yn Aberarad, Castell Newydd Emlyn;

E/34947 – DYMCHWEL AC AILADEILADU BLOC O SWYDDFEYDD NEWYDD – 216 metr sgwâr (B1) ar Stad Ddiwydiannol Capel Hendre, Rhydaman.

Nid oes data am geisiadau a wrthodwyd ar gael ar hyn o bryd (gweler yr eglurhad fel rhan o'r cyflwyniad i'r Adran Datblygu Cynaliadwy uchod).

Dangosydd	SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Rhoddwyd caniatâd (nifer y ceisiadau)	
Data'r Awdurdod	6

Rhoddwyd caniatâd (cynhyrchu ynni MW)	
Data'r Awdurdod	17.31

Mae'r 6 cais a ganiatawyd yn cynnwys:

- 1 Trydan dŵr
- 2 Solar;
- 2 Gwynt
- 1 Arall

Mae 1 cais cynllunio i gyfrif am y rhan fwyaf o'r potensial cynhyrchu MW – 9.1MW – Cais cynllunio S/34211 – DATBLYGU GENERADURON TRYDAN WRTH GEFN A'R HOLL WEITHREDIADAU ADEILADU A PHEIRANYDDOL CYSYLLTIEDIG A THIRLUNIO TIR GER SAFLE SOLAR FFOS LAS, CARWE

Dangosydd	SD3. Nifer yr aneddiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Tai ar gyfer y farchnad (nifer yr unedau)	
Data'r Awdurdod	373

Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)	
Data'r Awdurdod	70

Mae'r trosglwyddiad o Fframwaith y Cynllun Datblygu blaenorol drwodd i fframwaith y CDLI yn ffactor yn ffigur y Tai Fforddiadwy. Nodir hefyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Cyflenwi Tai Fforddiadwy yn ddiweddar; bydd y Cynllun hwn, ynghyd â darpariaethau y CDLI, yn ceisio hyrwyddo cyflenwi Tai Fforddiadwy yn y dyfodol.

Dangosydd	SD4. Caniatâd cynllunio a roddwyd ac a wrthodwyd ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd o orlifdir C1 a C2 yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau dibreswyl) NAD OEDDENT yn bodloni pob prawf yn Nodyn Cyngor Technegol 15 lle RHODDWDYD caniatâd	
Data'r Awdurdod	2 uned breswyl (0ha o unedau dibreswyl)

Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau dibreswyl) NAD OEDDENT yn bodloni pob prawf yn Nodyn Cyngor Technegol 15 lle GWRTHODWDYD caniatâd am resymau'n ymwneud â pherygl llifogydd	
Data'r Awdurdod	16 uned breswyl

Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau dibreswyl) A OEDD yn bodloni pob prawf yn Nodyn Cyngor Technegol 15 lle RHODDWDYD caniatâd	
Data'r Awdurdod	8 uned breswyl

Nid yw'r data ar hectarau ar gael.

Roedd y 2 y rhoddwyd caniatâd iddynt nad oeddent yn bodloni pob prawf yn Nodyn Cyngor Technegol 15 yn ymwneud â chais S/35070, trosi eiddo teras yn ddau fflat hunangynhwysol.

Dangosydd	SD5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a thir maes glas yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Tir a ddatblygwyd o'r blaen (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Dim data ar gael.

Tir maes glas (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Dim data ar gael.

Dim data ar gael. Gweler yr esboniad fel rhan o'r cyflwyniad i'r Adran Datblygu Cynaliadwy uchod.

Dangosydd	SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) a gâi ei golli a'i ennill o ganlyniad i'r datblygiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y chwarter.
------------------	--

Mannau agored a gollwyd (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Dim data ar gael

Mannau agored a enillwyd (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Dim data ar gael.

Dim data ar gael. Gweler yr esboniad fel rhan o'r cyflwyniad i'r Adran Datblygu Cynaliadwy uchod.

Dangosydd	SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) y cytunwyd arnynt o'r datblygiadau newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y chwarter i ddarparu seilwaith cymunedol.
------------------	--

Enillwyd trwy gytundebau Adran 106 (£)	
Data'r Awdurdod	£3,761,362

Enillwyd trwy Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)	
Data'r Awdurdod	Dim yn berthnasol.

Enillwyd trwy gytundebau Adran 106: Er na chyflwynwyd data i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cyflwyniadau chwarterol hyd yma, mae modd casglu'r wybodaeth hon bellach ac felly mae wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol hwn.

Ardoll Seilwaith Cymunedol: Nid yw'r ALI yn gweithredu system Ardoll Seilwaith Cymunedol ar hyn o bryd. Oherwydd hynny nid yw ail ran SD7 yn berthnasol.